# Y TINCER

PRIS 40c

Rhif 309

Mai 2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

## Etholiadau Ennill Seddau

Os ydi rhai yn cwyno fod gwleidyddiaeth yn colli ei sbarc, fe fyddai trip i fro'r *Tincer* ar ddiwrnod yr etholiadau lleol wedi bod yn agoriad llygad! Ceir canlyniad clos ym Melindwr a newyddion syfrdanol o Dirymynach, ble collodd Penri James ei sedd i'r rhyddfrydwr, Paul Hinge.

Fe gipiwyd y sedd o drwch blewyn, gyda Mr Hinge yn ennill 434 o bleidleisiau i 420 y deiliad, gan wrthdroi mwyafrif o dros 40%. Nid dymchwel cefnogaeth Plaid Cymru oedd yn gyfrifol, fodd bynnag, gan fod cyfanswm pleidleisiau Mr James dim ond 45 yn is nag yn 2004 – ymddengys mai prif lwyddiant y rhyddfrydwyr oedd denu pleidleiswyr newydd, a gwella'n aruthrol ar gyfanswm 2004 o 185 o bleidleisiau. Adlewyrchir hyn gan gyfran poblogaeth yr ardal a aeth i'r blwch pleidleisio ar y cyntaf o Fai, a gododd o 44% yn 2004 i 58% y tro hwn.

Roedd yna newyddion gwell i Blaid Cymru yn etholaeth Melindwr, lle trodd y pendil yn ôl o gyfeiriad y Rhyddfrydwyr. Yno fe gollodd Fred Williams ei fwyafrif o 20% i'r ymgeisydd Rhodri Davies. Yn y pendraw, roedd ei 489 pleidlais yn ddigonol i faeddu 432 y deiliad, a gollodd dros gant o bleidleisiau ers etholiad 2004, gyda chanran pleidleisio'r etholaeth o 58% yr union gyfanswm a'r etholiad diwethaf. Fe gafwyd llwyddiant ysgubol i Dai Suter yn Nhrefeurig, lle adeiladodd cynghorydd Plaid Cymru ar ei fwyafrif gan ennill 461 o bleidleisiau - dros 350 yn fwy na'i wrthwynebwr agosaf. Yn y Borth fe fu'r annibynnwr Ray Quant unwaith eto'n llwyddiannus, gyda'i gyfanswm o 436 o bleidleisiau ychydig yn is nag yn 2004.

Dim ond yn ward Pen-llwyn y cafwyd etholiad ar gyfer y Cyngor Cymuned y tro hwn, gyda Gareth Daniel, Richard Edwards, Arnold Selwyn Lloyd Evans, Wynne Jones, ac Aled G. Lewis yn cael eu hethol yn llwyddiannus. Mae'r *Tincer* yn dymuno'n dda i bob un o'r cynghorwyr, hen a newydd, dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. **HLlW**

**(Gwelir canlyniadau'r etholiadau yn llawn ar dudalen 9)**




Paul Hinge



Rhodri Davies

## Ennill Cadair



Rocet Arwel Jones, Aberystwyth, Pennaeth Datblygiadau Digidol yn y Llyfrgell Genedlaethol enillodd gadair Eisteddfod Penrhyn-coch eleni. Wythnos ynghynt roedd yn rhedeg ym marathon Llundain – pan orffennodd mewn 4:36:46 – a chodi arian i'r elusen MIND. Cyflwynodd wobr ariannol y Steddfod i'r elusen a llwyddodd hyd yn hyn i godi £4063.20 – aeth £1823 i Lundain ac mae'r gweddill yn cael eu cyflwyno i MIND Aberystwyth. Mae'r cyfri ar agor tan y 9fed o Fehefin (Arwel Jones (Mind) d/o Y Llyfrgell Genedlaethol.

(Gwelir cerdd Arwel ar dudalen 11 a hanes yr Eisteddfod ar dudalennau 10-11)

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 309 | Mai 2008

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - dylunio graffeg ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - David England
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, ☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

**Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MEHEFIN 5 A MEHEFIN 6 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MEHEFIN 19**

MAI 11-17 Wythnos Cymorth Cristnogol

MAI 15 Nos Iau Lawnsio gwefan plwyf Trefeurig am 7.00 yn Ysgol Penrhyn-coch

MAI 15-16 Nosweithiau Iau a Gwener Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno Siwan (Saunders Lewis) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

MAI 16 Nos Wener Stomp yn Llety Parc Trefnir gan Bwyllgor Apêl Llanbadarn Fawr Eisteddfod yr Urddd 2010. Pris mynediad £7

MAI 17 Dydd Sadwrn Cinio'r tlodion Cymorth Cristnogol yn Neuadd yr Eglwys

MAI 22 Nos Iau Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010 Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd am 7.30 Croeso Cynnes

MAI 23 Nos Wener Noson goffi Pwyllgor Henoed Llandre a Bow Street yn Neuadd Rhydypennau am 7.00

MAI 24 Nos Sadwrn
Barbiciw yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 6 pm - 8.30 pm Croeso Cynnes

MAI 26-31 Eisteddfod yr Urdd 2008 Sir Conwy

MEHEFIN 1 Nos Sul
Gwasanaeth Cyd-Enwadol Dwyieithog yng Nghapel y Gerlan, y Borth am 6:30

MEHEFIN 6 Nos Wener Te Blynyddol Bethlehem Llandre, 6ed o Fehefin 2008, am 6.30 yr hwyr. Gŵr Gwadd : Mr Gwyn Jones, Llys Maelgwyn.

MEHEFIN 6 Nos Wener Gig: Huw Chiswell yn Drwm, LLGC am 7.30 Tocynnau: £8 ☎ 632548

MEHEFIN 7 Bore Sadwrn Bore Coffi a Stondinau er budd Cymorth Cristnogol ym Mwyty Ceffyl y Môr, Y Borth o 10:00 i 12:00.

MEHEFIN 11 Dydd Mercher
Trip Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street i Landudno Cychwyn am 9.00 y bore
MEHEFIN 11 Nos Fercher Cyngerdd Cymorth Cristnogol yn Horeb gyda Cantre'r Gwaelod am 7.30

MEHEFIN 13 Nos Wener Barbiciw yng Nghartref Tregerddan am 6.30 Trefnir gan Ffrindiau'r Cartref

MEHEFIN 14 Dydd Sadwrn Taith Cymdeithas y Penrhyn i Gwm Tawe. Manylion oddi wrth Ceris Gruffudd (01970) 828 017

MEHEFIN 14 Dydd Sadwrn Sioe Sir Ceredigion Aberystwyth

MEHEFIN 22 Nos Sul Cyngerdd gyda Catrin Finch ac enillwyr Ceredigion Eisteddfod yr Urdd 2008 ym Mhafiliwn Ponthydfendigaid

GORFFENNAF 2 Dydd Mercher Trip Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street i Abergwaun; cychwyn am 1.00

GORFFENNAF 4 Nos Wener Noson goffi flynyddol Noddfa yn y Festri

## Cyfeillion y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Ebrill
£15 (Rhif 63) Mrs Iona Jones, Tir na Nog, Victoria Park, Caerdydd.
£10 (Rhif139) Gruffydd Aled Williams, Bron Afon, Dolau.
£ 5 (Rhif120) Bernard Jones, 28 Llys Y Brenin, Aberystwyth.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.

Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.

Deunydd i'w gynnwys

Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

Project Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro — Antur Teifi — Yr Undeb Ewropeaidd Amcan 1 — Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Y Tincer drwy'r post**

Pris 10 rhifyn - £9 (£17 i wlad y tu allan i Ewrop).Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp**

Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer**

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# GWERTHU NWYDDAU FFASIYNOL AT EISTEDDFOD YR URDD YN 2010

"Hei Mr Urdd yn dy goch gwyn a ... leim" yw'r gân wrth i bobl Ceredigion baratoi i groesawu Eisteddfod genedlaethol y mudiad yn 2010.

Mae'r arbenigwyr ffasiwn yn darogan mai leim fydd Y lliw yn y flwyddyn honno, a dyna yw un o ddau liw nwyddau'r Ðyl. Mae rhai o'r rheiny newydd ddod ar werth i godi arian at yr Eisteddfod a thynnu sylw ati.

Fe fydd gwyrdd yn bwysig hefyd, gan fod llawer o'r nwyddau wedi eu creu o ddefnydd wedi ei ailgylchu - gan gynnwys pensil, pren mesur a llyfr nodiadau.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yng Ngheredigion yn dilyn ffasiwn arall hefyd trwy greu peli rygbi arbennig a chrysau rygbi i ferched a dynion – y cyfan i ddathlu llwyddiant y tîm cenedlaethol yn cipio'r Goron Driphlyg a'r Gamp Lawn.

Ymhlith nwyddau eraill sydd ar fin ymddangos, crysau polo a chrysau-T a'r rheiny, fel yr holl nwyddau eraill, mewn leim a du.

Mae'r nwyddau eisoes yn gwerthu'n gyflym yng Ngheredigion ac fe fydd cyfle i bawb trwy Gymru eu prynu pan fydd gan Eisteddfod 2010 stondin ar faes Eisteddfod 2008 yng Nghonwy adeg hanner tymor.

Bydd cyfle arall yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst pan fydd y gwaith o beintio'r byd yn leim yn parhau.

Elfen arall bwysig yw fod y rhan fwya' o'r nwyddau'n cael eu cynhyrchu'n lleol, gyda Hefin Jones o Argraff Delyn Print ger Llandysul yn helpu'r Pwyllgor Gwaith i ddewis a ffeindio nwyddau.

"Rydyn ni wrth ein bodd fod ein nwyddau mor ffasiynol," meddai Rhian Dafydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd. A hithau'n berchen ar gadwyn siopau Ji-binc a Jac-do, mae'n deall y maes yn berffaith.

"Mae'r nwyddau'n gosod cywair ar gyfer yr Eisteddfod ac mae ein dewis ni o liwiau yn dangos y bydd yr Eisteddfod yn fodern, yn fywiog ac yn llwyddiant "Hei Mr Urdd yn dy goch gwyn a ... leim" yw'r gân wrth i bobl Ceredigion baratoi i groesawu Eisteddfod Genedlaethol y mudiad yn 2010.

Mae'r arbenigwyr ffasiwn yn darogan mai leim fydd Y lliw yn y flwyddyn honno, a dyna yw un o ddau liw nwyddau'r Ðyl. Mae rhai o'r rheiny newydd ddod ar werth i godi arian at yr Eisteddfod a thynnu sylw ati.

Fe fydd cyfle cynta' i bobl Gogledd Cymru i gyd brynu'r nwyddau adeg Eisteddfod yr Urdd eleni yng Nghonwy adeg hanner tymor. Fe fydd gan Eisteddfod 2010 stondin ar y maes.

Fe fydd gwyrdd yn bwysig hefyd, gan fod llawer o'r nwyddau wedi eu creu o ddefnydd wedi ei ailgylchu - gan gynnwys pensil, pren mesur a llyfr nodiadau.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yng Ngheredigion yn dilyn ffasiwn arall hefyd trwy greu peli rygbi arbennig a chrysau rygbi i ferched a dynion – y cyfan i ddathlu llwyddiant y tîm cenedlaethol yn cipio'r Goron Driphlyg a'r Gamp Lawn.

Ymhlith nwyddau eraill sydd ar fin ymddangos, mae crysau polo a chrysau-T a'r rheiny, fel yr holl nwyddau eraill, mewn leim a du.

Fe fydd cyfle arall i brynu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst pan fydd y gwaith o beintio'r byd yn leim yn parhau.

"Rydyn ni wrth ein bodd fod ein nwyddau mor ffasiynol," meddai Rhian Dafydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyhoeddusrwydd. A hithau'n berchen ar gadwyn siopau Ji-binc a Jac-do, mae'n deall y maes yn berffaith.

"Mae'r nwyddau'n gosod cywair ar gyfer yr Eisteddfod ac mae ein dewis ni o liwiau yn dangos y bydd yr Eisteddfod yn fodern, yn fywiog ac yn llwyddiant llachar!"

## Wyddoch chi am leoliad cudd?

Mae cwmni Fulma Television Productions yn paratoi cyfres deledu o'r enw 'Hidden Wales'. Maent yn chwilio am wybodaeth am unrhyw leoliad cudd yng Nghanolbarth Cymru gyda stori ddiddorol y gellid ei chynnwys yn y rhaglen, er enghraifft bedd neu gofeb gudd. Os ydych yn gwybod am stori o'r fath, gallwch gysylltu â'r golygydd a bydd ef yn trosglwyddo eich neges i'r cwmni.

## RHODD

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

£10 Bob a Rhian, Wrecsam

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# Y BORTH

## Marwolaeth

Bu farw'n sydyn Mr Peter Glover, Sea Cliff, Y Graig, nos Iau, 17 Ebrill, yn 68 oed.

Yr oedd gan Peter gylch eang o ffrindiau yn Y Borth ac fe fyddai'n mwynhau eu cwmni yn enwedig yng ngweithgareddau Clwb yr Henoed ac yn y Clwb Croeso, lle 'roedd yn Gadeirydd y Clwb. Cofir amdano fel dyn haelionus, diffuant a diwylliedig. 'Roedd ganddo rychwant eang o ddiddordebau gan gynnwys archaeoleg, hanes lleol, athroniaeth a chrefftau. Ers blynddoedd fe fu arweinydd grwp mosaig sydd wedi cyfrannu at addurno morglawdd a gorsaf reilffordd Y Borth.

Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Mawrth, 29 Ebrill. Talwyd teyrnged i Peter gan Pod Clare, Ray Quant, Diane Richards a George Romary.

## Boreau Coffi

Bu dau Fore Coffi yn ystod y mis. Trefnwyd y naill gan Margaret Griffiths yn Nhafarn Ceffyl Y Môr, ddydd Gwener, 25 Ebrill, pan godwyd dros £250 er budd Tŷ Hafan, Hosbis i Blant.

Digwyddodd y llall yn Neuadd Gymunedol Y Borth ddydd Sadwrn, 26 Ebrill, at achos Plant Dewi, sef Grŵp Rhieni a Phlant sy'n cyfarfod yn wythnosol yn y Neuadd.


SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938


## Sefydliad y Merched

Dydd Mercher, 16 Ebrill, mwynhaodd SYM Y Borth brynhawn braf o wanwyn yng nghartref "Wyau Birchgrove" rhwng Trawsgoed a Llanilar. Ymwelodd y grŵp â'r ystafelloedd lle caiff yr wyau eu pwyso a'u pacio, ac fe edmygwyd y 3000 o ieir oedd yn ysgythru o gwmpas yn hapus yn yr awyr agored neu'n llowcio bwyd yn eu sied enfawr. Diolch yn fawr i Tony a Gwen Burgess am eu croeso, eu coffi a'u teisen flasus ac am eu rhoddion o wyau.

Ymwelodd Freda Darby, Susan James a Jo Jones a Choleg Denman yn ystod penwythnos olaf mis Ebrill a mwynhau gwibdaith i Waddesdon Manor fel rhan o'u cwrs yno.

## Cymorth Cristionogol

Cynhelir Gwasanaeth Cydenwadol Dwyieithog yng Nghapel y Gerlan nos Sul, Mehefin 1af, am 6:30 o'r gloch, pryd yr anerchir gan y Parchedig Wyn Morris.

Bore Coffi a Stondinau er budd yr uchod ym Mwyty Ceffyl y Môr fore Sadwrn 7ed Mehefin o 10:00 i 12:00 o'r gloch.


**COFIWCH Y DYDDIADAU.**

**CROESO CYNNES I'R DDAU ACHLYSUR.**

## Cyngerdd

Cynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd Gymunedol Y Borth, nos Sadwrn, 26 Ebrill, er budd Cyngor Henoed Cymru. Ymhlith y rhai oedd yn cymryd rhan roedd Dawnswyr Disgo Ysgol Rhydypennau, Michael James (adroddiad ac unawd wrth y piano), Philip Edwards, Sophie Rudge a Sam Ebenezer (cantorion), myfyrwyr o Adran Ddrama Prifysgol Aberystwyth, a Chôr Staff Cartref Tregerddan. Roedd te a bisgedi ar gael yn ystod yr egwyl.

Diolchir i'r perfformwyr, i Mr Mark Williams AS a weinyddodd fel Meistr y Seremoniau, ac yn arbennig i Mrs Rosa Davies a drefnodd y cyfan.



Rhys Hedd

## Clwb yr Henoed

Braidd yn hwyr roedd Te-parti'r Pasg yng Nghlwb yr Henoed eleni, ond ddydd Iau, 10 Ebrill, yn Neuadd Gymunedol y Borth, fe fwynhaodd yr aelodau wledd dymhorol wedi'i darparu gan aelodau o'r pwyllgor. Cyflwynwyd cwis gan y Cadeirydd, Betty Horton, o dan enw "Y Cwis Mawr Cymreig". Gweddol anodd oedd e hefyd! Pwy a fyddai wedi meddwl mai Cymro (Robert Recorde 1510-1558) ddyfeisiodd yr hafalnod?

Plant Chernobyl oedd pwnc anerchiad Mrs Sue Williams yn y Neuadd Gymunedol ddydd Iau, 24 Ebrill. Dangosodd sleidiau ynglŷn â'i hymweliad â Belarus, a ddioddefodd rai o effeithiau gwaethaf y ffrwydrad niwclear yn Chernobyl dros ugain mlynedd yn ôl. Aethpwyd a dillad, teganau a chyfarpar addysgol i'r plant anabl yng nghartrefi Plant Amddifaid yno. Ers blynyddoedd, erbyn hyn, mae pobl haelionus Aberystwyth a´r ardal wedi´i gwneud yn bosibl i lawer o´r plant dreulio gwyliau haf yn Aberystwyth, ond bellach y maent yn apelio am wirfoddolwyr eraill i fynd ymlaen gyda´r prosiect gwerth chweil hwn. Diolchwyd i'r siaradwraig gan Betty Horton.

## Rhys Hedd a Mared Emyr.

Llongyfarchiadau i Rhys a Mared, 5 Ffordd Clarach, ar eu llwyddiannau diweddar. Bu'r ddau yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch a llwyddodd y ddau i ennill nifer o wobrau. Yn ogystal derbyniodd Rhys y fraint o ganu Cân y Cadeirio am y tro cyntaf a bu Mared yn cyfeilio ar y delyn i'r osgordd gyrchu'r bardd buddugol i'r llwyfan eto eleni.

Mae Rhys yn aelod o Gôr ac Ensemble Ger y Lli, dan Arweiniad Greg Roberts, ynghyd â Chôr Bechgyn a Chôr Cymysg Ysgol Penweddig. Yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd bydd yn cystadlu gyda'r pedwar grŵp. Pob dymuniad da iddo yn yr Eisteddfod.

Hefyd, cafodd wybod yn ddiweddar ei fod wedi ei dderbyn (ar ôl gwrandawiad) i adran y Baswyr yng Nghôr y Tair Sir (Ceredigion, Penfro a Sir Gâr) dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cerdd Mr Emyr Wynne Jones. Bydd yn awr yn mynychu cwrs preswyl rhwng y 5-9 o Orffennaf yn Llanymddyfri, a chynhelir y cyngerdd ar ddiwedd y cwrs yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth – ble y byddwn yn siŵr o gael gwledd. Pob dymuniad da iddo.

# CLWB GOLFF Y BORTH

## Ymweliad â Uppingham

Bwrw Sul olaf mis Ebrill teithiodd toreddig o aelodau Clwb Golff y Borth i dref ac ysgol Uppingham, Swydd Rutland.

Mae cysylltiad wedi bod rhwng y Borth a'r ysgol ers 1876 pan fe fu rhaid i'r ysgol adael ei chartref am flwyddyn er mwyn ysgoi y Typhoid a fu'n gyfrifol am farwolaeth sawl disgybl. Dan arweiniad ei phrifathro ail sefydlwyd yr ysgol yn y Borth am gyfnod o ychydig dros flwyddyn. Ysgol fonedd freintiedig oedd Uppingham ac mae'n rhaid ei bod wedi cael cryn agoriad llygad yn ystod ei hymweliad ar bentref diarffordd. Serch hynny fe sefydlwyd perthynas glos rhwng y pentrefwyr a'r ysgol, ac yn wir daeth llawer o'r athrawon yn ôl i'r Borth am ddegawdau yn ystod gwyliau'r haf.

Yr ysgol oedd yn gyfrifol am ddechrau chwarae Golff yn y Borth a bu llawer o'r athrawon yn ddylanwadol yn natblygiad cynnar y cwrs. Braf iawn felly oedd cael bod yn rhan o'r bererindod gyntaf gan Glwb y Borth yn ôl i Uppingham. Ar y bore Sul wedi'r golff cawsom ymweld a'r ysgol bresennol. Mae yn dal i ffynnu hyd heddiw gyda mil o blant a chant a hanner o athrawon gydag adnoddau dysgu heb ei gwell. Anrhydedd o'r mwyaf oedd cael bod yn bresennol yng ngwasanaeth Sul yr Ysgol. Trwy gyd-ddigwyddiad hwn oedd gwasanaeth "Y Borth " pryd pob blwyddyn maent yn rhoi diolch am eu dihangfa o'r Typhoid ac am gyfeillgarwch pobl y pentref. Cawsom wledd o ganu gan gôr yr Ysgol gan adael efo geiriau emyn Cwm Rhondda yn atseinio drwy'r eglwys.

Edrychwn ymlaen am gael gwahodd ein ffrindiau o Uppingham yn ôl i'r Borth y flwyddyn nesaf.

# GOGINAN



Lewis Johnston, Rheolwr Y Druid, yn derbyn y dystysgrif oddiwrth Rhys Jones 'CAMRA'

### Priodas

Llongyfarchiadau i Kath (Posh Paws) a Chris Hughes, Bryn Pica ar eu priodas ar Ebrill 14. Pob lwc iddynt i'r dyfodol.

### Criced Melindwr

Cynhaliwyd cinio blynyddol Clwb Criced Melindwr yn Y Druid ar Ebrill 26 lle y cafwyd bryd blasus. Richard Jones, Melody oedd Chwaraewr y Flwyddyn eleni. Mae'r clwb yn chwarae yn yr Ail Gynghrair Fin Nos Aberystwyth. Os oes diddordeb gan unrhyw un i ymuno gyda'r cwb cysylltwch gyda Brian Ashton, y capten, ar 880286. Croeso cynnes i bawb.

### Druid

Unwaith eto mae Y Druid wedi ennill gwobr. Yn ystod haf diwethaf fe gwobrwyd gan y papur dyddiol y *Guardian* fel un o'r llefydd gorau yng Nghymru i cael cinio dydd Sul. Ond yn ystod mis Ebrill fe fu dathliad mawr lle cyflwynwyd Tysysgrif 'CAMRA' fel y dafarn orau yng Ngheredigion am gwrw iawn. Braf yw gweld pobl ieuanc lleol yn llwyddiannus. Gobeithio fydd Y Druid yn mynd o nerth i nerth.

# DÔL-Y-BONT

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Llinos a Defi Evans, Dol-werdd ar ddod yn fam-gu a tad-cu – ganwyd mab – Macsen Dafydd Gwyn - i Rhian a Rolant Gwyn dydd Llun 14 Ebrill. Llongyfarchiadau hefyd i dad-cu Caerdydd – Aled Gwyn.


Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion.
13 Stryd Y Bont, Aberystwyth
01970 626200

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820 375

Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

# LLANDRE

## Treftadaeth Llandre

Fe ddaeth Gerald Morgan, yr hanesydd lleol, i'n hannerch ar y testun 'Pobl Llanfihangel Genau'r-glyn yn yr 17eg Ganrif'. Er bod y wybodaeth ffeithiol am yr adeg yma - 400 cant o flynyddoedd yn ôl yn brin, cawsom stori ddiddorol a seliwyd ar ewyllysiau.

Yn arferol ffynhonnell bwysig arall o wybodaeth am y cyfnod yma yw gweithrediadau Llys y Sesiwn Fawr yng Nghymru ond eto prin iawn yw'r defnydd. Rhaid bod pobl Genau'r-glyn erioed yn parchu'r gyfraith.

Ychydig iawn o bobol oedd yn medru ysgrifennu a deall Saesneg a'r un wrth law oedd y Person lleol. Nid rhyfedd felly fod pump o ewyllysiau a roddwyd fel enghreifftiau yn deillio o'r maes yma. I bobol anllythrennol rhaid oedd cael trafodaeth gyda'r Person ac yntau yn mynd ymlaen ac ysgrifennu'r ewyllys.

Ar ôl y rhagarweiniad arferol fe fyddai'r ewyllys yn rhestru eiddo parhaol ac yna rhestr o'r eiddo symudol a chyfeiriadau sut i'w dosbarth. Prisiwyd yr eiddo symudol ar raddfa safonol - buwch £1, dafad dau swllt, oen swllt ac yna celfi tÐ.

Yr ewyllys gyntaf a drafodwyd oedd un Morgan ap Howell, Ficer y plwyf a fu farw ym 1563 yn gadael ugain swllt i'r tlodion, 55 o ddefaid ond dim rhestr o eiddo ar gael, ond yn ddyledus am 42 pwys o gaws. Ficer Thomas Gwyn a fu farw ym 1590 yn gadael £60 i'w frawd, ac yna i'w weddw, ac i'w fab anghyfreithlon.

Rhestr eiddo Evan Clayton (1661) gof o'r plwyf oedd buwch £1, £24 o ddefaid £2, offer gweithdy £1, pres a piwtar £1.1.6c, gwely 15 swllt, casgen gwrw 5s a coffor 7s 8c, yn gwneud cyfanswm o £6. 11.2c.

Ar y llaw arall masnachwr ariannog o Glan Lerry yn gadael swm o 288 punt mewn arian parod a thyddynnod yn yr Amwythig a Chaer. Wrth ddarllen y dogfennau mae'n bosib cael cipolwg ar rai agweddau o fywyd yn y dyddiau cynt. Er bod enwau rhai o'r deiliadau wedi llwyr ddiflannu erys rhai hyd y dyddiau yma.

Yn ein cyfarfod nesaf ar y 29ain o Fai fe fydd Vernon Jones yn trafod – "Llenyddiaeth Cerrig Beddau" yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30.



Rhai aelodau o ganghenau lleol o Ferched y Wawr yng nghinio'r De yn ddiweddar.

## Merched y Wawr

Nos Lun, Ebrill 21ain bu'r aelodau ar ymweliad a chartref newydd y Bad Achub yn y Borth. Mae'r adeilad ysblennydd wedi ei dalu amdano gan wirfoddolwyr. Yno i'n croesawu roedd Mrs Margaret Griffiths, Mrs Elizabeth Evans a Mrs Brenda Davies. Rhoddodd Margaret fraslun o hanes y bad achub ac arweiniwyd yr aelodau o gwmpas gyda Mrs Mair England yn edrych yn hardd iawn yn ei gwisg achub! Cafwyd paned o de a bisgedi blasus tra bu'r Llywydd yn talu'r diolchiadau ac yn llongyfarch Llinos ar ddod yn nain i Macsen. Roedd yn flin gan yr aelodau glywed fod Bill - gŵr Buddug a thad Gweno wedi ei gymryd i'r ysbyty yn gynharach y diwrnod hwnnw. Hefyd dymunwyd gwellhad buan i Megan. Cynhelir y cyfarfod blynyddol y tro nesaf ar Fai 19eg.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Glyn a Margaret Williams, Bryngolau, ar ddod yn hen dad-cu a hen fam-gu am yr ail dro. Ganwyd merch fach - Ffion Elinor, - i Elain a Tomi yng Nghroesoswallt.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Bill Thomas, Troed y Bryn sydd wedi bod yn Ysbyty Bron-glais, ac erbyn hyn yn Ysbyty Tregaron. Ein cofion cynnes ato.

## Merched yn mwynhau!

Daeth dros 600 o aelodau Merched y Wawr a Chlybiau Gwawr ynghyd i ddau ginio Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, Mary Price yn ddiweddar.

Cynhaliwyd y digwyddiad yn y de ar Ebrill y 5ed yn Theatr Halliwell Coleg y Drindod ac roedd y diwrnod yn un llwyddiannus iawn ac yn gyfle i bawb ddod at eu gilydd i ddathlu eu Cymreictod ac hefyd i anrhydeddu'r llywydd. Dyma rai o aelodau canghenau'r ardal fu yno.

## Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Joe Hill a Sandy Stewart ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Margaret Thomas, Sŵn y Nant, ar golli cefnder yn Aberystwyth.

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# BOW STREET

## Suliau Mehefin

**Y Garn**
**10 a 5**
**www.capelygarn.org**
**1 J.R. Jenkins Bugail**
**8 Alwyn Roberts**
**15 Bugail**
**22 Huw Roderick J.T. Williams**
**29 R.W. Jones**

**Noddfa**
**1 10.00 Gweinidog**
**8 2.00 Parch Terry Edwards**
**15 10.00 Oedfa Undebol yn Y Gerlan**
**22 5.00 Parch Roger Thomas**
**29 10.00 Gweinidog. Cymundeb**

## Diolch

Dymuna Rhian, Bob, Aled a Gwenan â'r teulu (Wrecsam) ddiolch i bawb am y cardiau a'r galwadau ffôn yn mynegi cydymdeimlad a ni ar golli ein tad, Lewis Evans. Bu'r cyfan yn gysur mawr i ni. Anfonwn ein cofion at bawb.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Vivian a Teresa Davies, Garn Villa ar farwolaeth perthynas i Teresa yn Llanilar - sef Gary Pugh.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Hywel Williams, 46 Bryncastell, ond yn wreiddiol o Heol Aberwennol, Y Borth, ar lwyddo yn ei arholiadau cyfrifyddiaeth, a dod yn aelod cymwys o'r Gymdeithas Cyfrifyddion Siartredig Ardystiedig (ACCA).

## Symud ardal

Dymuniadau gorau i Mike Filek, Y Ffald, ger Bryncastell, yn ei swydd newydd yn Ysbyty Gobowen. Yn wreiddiol o Ganada, mae Mike wedi dysgu Cymraeg yn arbennig o dda, a bu'n aelod ffyddlon o Gôr ABC, gan gefnogi plygain ac Eisteddfod Penrhyn-coch. Byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr wrth iddo symud o'r ardal ond da deall y bydd yn parhau yn aelod o'r Côr.



Llongyfarchiadau i'r merched am nofio'n dda yn Gala Nofio Brownies Ceredigion a gynhaliwyd yn Aberaeron yn ddiweddar. Kelly Harper (2il Rhydd a 2il Cefn), Cara Lucas (4ydd Rhydd a 3ydd Broga), Lorna Harper (2 ail Broga), Ras Cyfnewid Cymysg 2 il a Ras Cyfnewid Rhydd 2il.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr Vernon Jones, Gaerwen, ar farwolaeth Mr Tom Jones, Tregaron ar ôl cystudd blin.

â Mr a Mrs Rowland Ellis Jones, 1 Maesceiro, ar farwolaeth ei chwaer, sef Mrs Nellie Williams, Tŷ Newydd, Blaenpennal.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Paul Hinge ar gael ei ethol fel Cynghorydd Sir dros ardal Tirymynach.



Llongyfarchiadau i Mari Wyn Lewis, Carregwen , Bow Street am ennill yr 'Unawd o Sioe Gerdd dan 19' yn Eisteddfod y Sir yn ddiweddar.

Connie Fisher o'r 'Sound of Music (a Sir Benfro!) oedd yn beirniadu, a dwedodd hi fod cystadlu yn gyson ar lwyfan yr Urdd wedi rhoi llawer o hyder iddi ac wedi ei hannog i ddilyn gyrfa ym myd y Celfyddydau.

Mae Mari Wyn yn cystadlu mewn chwe chystadleuaeth yn Llandudno ar ddiwedd y mis, ar yr Unawd, y Ddeuawd Blwyddyn 10-13 gyda Catrin Woodruff o Ysgol Penweddig, Ensemble Lleisiol (gyda Ffion Evans o Maes Afallen, Bow Steet a Gwenno Healy o Maesmeurig, Trefeurig), a hefyd gyda chôr merched a chôr SATB Ysgol Penweddig a Chôr Ger-y-lli.

Mae hefyd wedi hyfforddi tîm dawnsio disgo Ysgol Rhydypennau gyda'i ffrind Bethan Jenkins o Langorwen ac maent hwy hefyd wedi cyrraedd Bae Penrhyn.

Felly pob lwc i Mari Wyn, tîm dawnsio disgo Rhydypennau a phawb arall sy'n cystadlu ar ddiwedd y mis.



Llongyfarchiadau i beldroedwyr ardal y *Tincer* ar ennill Cystadleuaeth Cynghreiriau Canolbarth Cymru yn ddiweddar a diolch i'r Hyfforddwyr Rhys Lewis a Richard Lucas.

# PENRHYN-COCH

Horeb

**Suliau Mehefin**

**1 2.30 Oedfa gymun a neilltuo diaconiaid newydd Gweinidog**
**8 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog**
**15 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog**
**22 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog**
**29 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog**

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dr Rhiannon Ifans, Rhandir, ar farwolaeth sydyn ei thad ar Ynys Môn ganol Ebrill

Ac â John Ifor Jones a'r teulu, Maesyfelin ar farwolaeth Lil ar 13 Ebrill

## Twm Siôn Cati o Benrhyn-coch

Marc Roberts o Gae Mawr, Penrhyn-coch yw Twm Siôn Cati! Mae Marc, sy'n 20 oed ,wedi ei ddewis i chwarae rhan Twm yn sioe haf Cwmni Theatr Arad Goch. Mae Marc wedi actio gyda'r cwmni o'r blaen yn ogystal a chyda Theatr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a Impact – cwmni theatr mewn addysg a'i bencadlys yn Leeds.

Bydd sioe Twm Sion Cati yn teithio ledled Cymru o Fai 21 i Orffennaf 5ed – a bydd Marc yn cael y cyfle i berfformio mewn theatrau mawr fel y Riverfront yng Nghasnewydd a Theatr Gwynedd yn ogystal â neuaddau cymunedol. Mae'n amlwg yn edrych ymlaen at y daith; "Rwy wrth fy modd yn perfformio ac mae cael gwneud hynny gyda chriw sy'n gymysgedd o bobl ifanc ac actorion mwy profiadol fel Emyr Bell a Ffion Wyn Bowen yn werthfawr dros ben; mae hefyd yn lot o hwyl."



Bydd plant 7-11 oed nifer o ysgolion y cylch yn cael cyfle i weld perfformiadau Cymraeg a Saesneg yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, ac mae cyfle i deuluoedd hefyd weld perfformiad Cymraeg o'r sioe yno ar ddydd Sul 1 Mehefin am 2.30 y pnawn (rhif ffôn y swyddfa docynnau 623232).

A beth nesa i Marc? Wel mae Marc yn gobeithio sicrhau lle ar gwrs actio naill ai yng Nghaerdydd neu Llundain. Pob lwc iddo.

## Marwolaeth

Ar y 10fed o Ebrill, bu farw Mrs Joyce Davies, Llan-non, yn 82 mlwydd oed. Merch i'r diweddar Martha ac J. D. Jones, Fferm Tŷ Mawr, Penrhyn-coch gynt. Joyce oedd yr olaf o bedwar plentyn, bu farw ei brodyr sef Elfed, Alun ac Eric o'i blaen. Ganwyd iddi bump o blant: Derrick, Roy, Yvonne, Lyn a Philip, mynychodd y tri phlentyn hynaf ysgol Penrhyn-coch cyn i'r teulu symud i fyw i Lan-non. Bu farw Derrick ddeng mlynedd yn ôl ac fe'i claddwyd ym mynwent Sant Ioan, ble dymunodd Joyce gael ei chladdu gydag ef. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchg J. Livingstone, a'r organydd oedd Eirwen Hughes.

## Urdd y Gwragedd

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol blynyddol Urdd y Gwragedd ar ddechrau mis Ebrill. Trafodwyd gweithgareddau'r flwyddyn dros baned o de. Gweithgareddau llwyddiannus fel sialens yr aelodau, cyngerdd, a nosweithiau bingo i enwi ond rhai, ac yn awr mae'r amser i drafod syniadau newydd ar gyfer rhaglen y flwyddyn i ddod. Ar ddydd Sadwrn 10fed o fis Mai, cynhelir trip diwrnod yr Urdd, yng ngofal Mrs Dwynwen Belsey.

## Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau i Idwal, Brogynin Fach, ar ei ben blwydd yn 80 oed ar y 15fed o Fai. Pen blwydd hapus iawn i ti. Gwen.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Phillip, Bronderw, ar ôl damwain ar ei goes yn ddiweddar.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Jane Jenkins, Kerry a'r teulu ar golli modryb yn ddiweddar, sef Nans Evans, Llwynhywel, Llanilar.




Daeth 8 tîm ynghyd o wahanol fudiadau a chymdeithasau y plwyf nos Wener Mai 9fed yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch i gystadlu mewn cwis wedi ei drefnu gan Angharad Fychan. Codwyd £105 ar y noson tuag at gronfa plwyf Trefeurig i Eisteddfod yr Urdd 2010. Mae nod o £7,000 i'r plwyf a da deall fod tua £2,500 eisoes wedi ei gasglu. Cyflwynodd Ensemble Côr ABC eu gwobr yn Eisteddfod Penrhyn-coch i'r gronfa.
Dosbarthwyd taflen yn gwahodd rhai sydd yn byw yn y plwyf i gyfrannu tuag at Eisteddfod yr Urdd 2010 Ceredigion. Mae swyddogion y pwyllgor am atgoffa y rhai sydd am gyfrannu yn y dull yma i ddychwelyd eu ffurflenni i'r cyfeiriad yn Llanuwchllyn.

## Merched y Wawr

Nos Iau, 10fed o Ebrill cafwyd noson arbennig unwaith eto. Croesawodd ein Llywydd, Mair Evans, bawb i'r cyfarfod. Gan ei bod ag apwyntiad arall yr un noson aeth ein Llywydd ymlaen i gyflwyno ein gŵr gwadd sef Sion Jones, perchennog y tŷ bwyta "Blue Creek" yn Aberystwyth. Fe ddangosodd i ni sut i goginio rhai o'r bwydydd mae yn defnyddio yn ei dŷ bwyta ac yn ddiddorol iawn dangos i ni rhai o'r offer mae yn defnyddio yn rheolaidd yn ei gegin. Ar ôl iddo gwblhau gwneud y coginio fe roddodd gyfle i bawb i'w flasu. Roedd yn hyfryd dros ben. Diolchwyd iddo gan Sandra Beechey a dymunwyd yn dda iddo yn ei dŷ bwyta.

Yna aed ymlaen i wneud y busnes arferol a mynd trwy yr ohebiaeth a ddaeth i law. Cydymdeimlwyd â rhai oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Yna fe ddymunwyd yn dda i'r merched hynny fydd yn cymryd rhan yn chwaraeon terfynol Merched y Wawr ym Machynlleth yn ystod mis Mai, ac i'r rhai fydd yn cymryd rhan yng nghystadlaethau Ffair Celf a Chrefft Merched y Wawr yn Aberaeron ym mis Mai.

Edrychir ymlaen at y trip ddirgel a'r cyfarfod blynyddol i ddiweddu'r tymor.

Bu swyddogion y gangen yn gyfrifol am sicrhau bod yr ardalwyr yn cael cyfle i gymryd rhan yng nghystadleuaeth y côr a'r parti llefaru yn Eisteddfod Penrhyn-coch. Diolch i'r canlynol am eu cefnogaeth ac am roi o'i hamser i gefnogi'r Eisteddfod leol:

- Aelodau'r côr a'r parti llefaru
- Alun John (Hyfforddwr ac Arweinydd y Côr)
- Heddwen Pugh Evans (Cyfeilyddes)
- Y Parchg Judith Morris (Hyfforddwraig y Parti Llefaru)
- Pwyllgor Neuadd y Penrhyn ac Emyr Pugh Evans (Pennaeth yr Ysgol)

Cyflwynir y gwobrau cyntaf i Ward Meurig, Ysbyty Bron-glais (gwobr cynta'r côr) ac i gronfa Brian (Yogi) Davies (gwobr y parti llefaru).

## Cydymdeimlo

Cydymdenimlwn â Alwen a Thomas, Rhys a Tomos Fanning, 69 Ger-y-llan, ar farwolaeth mam Thomas yn ddiweddar.

# MADOG

**Suliau Mehefin**
**Madog**
**2.00**
**1 J.R. Jenkins**
**8 Alwyn Roberts**
**15 Bugail**
**22 Huw Roderick**
**29 R.W. Jones**

### Gwellhad buan

Dymunwn wellahd buan i Alwen Griffiths, Lluest Fach, ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Singleton.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi, ar farwolaeth ei nai – Mr Ieuan Evans, gynt o Lanfarian.

### Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau i Gwladys Evans, Pen-rhiw, Bont-goch, a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar

### Pump Cenhedlaeth

Yn y llun yma gwelir Mr a Mrs John Griffiths, 13 Ger-y-llan, Penrhyn-coch (gynt o Langeitho), Erwyd Howells yn cynrychioli eu diweddar ferch Mari, Elen a Mark, a'r hynafgwr Rhys Tom Griffiths (98 oed) o Aberaeron sydd yn anwylo ei or-or-wyres Seren Skipp a gafodd ei geni ar yr 28ain o Chwefror. Llun: Ian Sant



# CLARACH

### Diolch

Dymuna Tilly Davies, Sŵn y Don, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am y cardiau, galwadau ffôn a phresantau ar achlysur ei phen blwydd yn nawdeg pedwar ar Ebrill y 29ain. Diolch o galon i bawb.



Dyma far newydd Clwb Glan-y-môr, Clarach -prosiect diweddara Carwyn Lloyd Jones, Bow Street, saer coed lleol, sy'n asiedydd pensaerniol, a sydd yn gwneud grisiau a cholfresi, torri a siapio pren, atgyweirio ac adnewyddu. Os byddwch yn yr ardal mae'n werth ichi fynd i'w weld.

# ETHOLIADAU CYNGOR SIR A CHYMUNED

**Dyma ganlyniadau etholiadau Cyngor Sir Ceredigion yn ardal Y Tincer**

**Y BORTH**
James Whitlock Davies 333
Raymond Paul Quant (Annibynol) 436
48.05%

**MELINDWR**
Rhodri Davies (Plaid Cymru) 489
Fred Williams (Dem. Rhyddfrydol Cymru) 432
58.14%

**TIRYMYNACH**
Paul Buckingham James Hinge (B.J.) (Dem. Rhyddfrydol Cymru) 434
William Penry James (Plaid Cymru) 420
57.83%

**TREFEURIG**
David (Dai) Suter (Plaid Cymru) 461
Martin John Squires (Dem. Rhyddfrydol Cymru) 108
Kari Walker 99
49.19%

**CYNGHORAU CYMUNED**
Ym MELINDWR (ward Pen-llwyn) yn unig oedd etholiad ar gyfer Cyngor Cymuned yn ardal ***Y Tincer***; dyma'r canlyniad, lle pleidleisiwyd gan 58.14% o'r etholaeth.. Roedd saith ymgeisydd yn sefyll am chwe sedd

**MELINDWR**
Ward Pen-llwyn
Gareth Daniel, Glynrheidol 145 Etholwyd
Richard Edwards, 2 Pen-llwyn 142 Etholwyd
Arnold Selwyn Lloyd Evans, Cwmwythig 110 Etholwyd
Wynne Jones, Tan-y-gaer, C B 111 Etholwyd
G. Gwynfor Jones, Llwyniorwerth Uchaf; 83
Aled G. Lewis, Ystrad. 139 Etholwyd

Nid oedd etholiad yn wardiau eraill Meindwr na Cymunedau arall yn ardal ***Y Tincer***. Etholwyd y canlynol yn ddiwrthwynebiad.

**Y BORTH**
Anna Cole, Ar-y-Gors, Ynys-las.
Bryn Jones, Cerdd Y Don, Ffordd y Fulfran.
Jo Jones, Rockside
Frank Arnold Hitchings, 4 Heol Rhydygarreg
Jackie Lawrence, Argoed,Ffordd y Fulfran
Anthony John Morris, Glaneifion, High Street
Janet Owen, Ffrancon, Cliff Road
Mathew Teasdale, YHA Borth, Morlais
Billy Williams, Ty-Du Farm
Rita June Wyatt, Newlands

**GENAU'R-GLYN**
Sue Davies, Lightwoods
David England, Pant-y-glyn
Erddyn James, Lluarth
Gwenda James, Tre-medd
Moss Jones, Goleufryn
Thomas Meirion Lewis, Cysgod y Gwynt, Dôl-y-Bont
Dylan Raw-Rees , Cilolwg, Y Borth
Aled Rowlands, Clychau'r Gog

**MELINDWR**
Ward Goginan
M. Elizabeth Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno; Brython Davies, Bryngwenlli, Pisgah; Dafydd Tim Fryer, Melindwr, Hen Goginan.
Ward Llanbadarn y Creuddyn Uchaf
Elizabeth M. Collison, Dolcniw, Blaengeuffordd; T. Ceredig Williams, Tynywern, Aber-ffrwd

**TIRYMYNACH**
(Bow Street oni nodir yn wahanol)
Ward Llangorwen
Dewi Evans, 93 Bryncastell; David Jenkin James, Gilwern, Clarach.
**DWY SEDD WAG**
Ward Tirymynach
John T. Evans, 39 Maes Ceiro; Tom Hughes, Pantyperan, Llandre; E. Vernon Jones, Gaerwen, Bow Street; Heulwen Morgan, Pan-yr-haul, Dolau; Owain Elystan Morgan, Annedd Deg, Penrhiw; Harry Ll. Petche, 20 Maesafallen; D. Gwynant Phillips, 1 Cae'r Odyn; Rowland Rees, Brysgaga.

**TREFEURIG**
Edwina Davies. Darren Villa, Pen-bont.
Trefor Davies. Maes y Rhosyn, Pen-bont
Mel Evans, Gwarcaeau
D. Mervyn Hughes, Ger-y-llan
Evan Daniel Jones, Clawddmelyn
Tegwyn Lewis. Rhos-goch
Richard Owen (Plaid Cymru), 31 Glan Ceulan
D. Rees Morgan, 9 Maes Seilo
Gwenan Price, Dolmaeseilo
David Sheppard (Plaid Cymru). 1 Dolhelyg
Kari Walker, Symlog House, Cwmsymlog

# EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH

Lluniau: Hugh Jones



Rhiannon Jones, Bow Street, llywydd nos Sadwrn



Meinir Davies, llywydd nos Wener



Y pump fu'n cystadlu ar y canu emyn dros 60 oed, Alun John, Tecwyn Blainey, Meirion Williams, Bryn Roberts, Vernon Maher.



Aelodau Cylch Meithrin Trefeurig



Un o gorau unsain Ysgol Penrhyn-coch

Cynhaliwyd yr eisteddfod dros y penwythnos 18/19eg o Ebrill. Cafwyd eisteddfod lwyddiannus dros ben ac ar ran y pwyllgor carwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr eisteddfod ymhob ffordd eleni eto. Diolch i'r Beirniaid, Cyfeilyddion, Arweinyddion, Llywyddion, Gofalwyr y drws, Merched y gegin, y gynulleidfa ac wrth gwrs y Cystadleuwyr a ddaeth o bob cwr o Gymru. Hefyd diolch i bawb sydd yn cyfrannu yn ariannol a rhoi gwobrau yn gyson bob blwyddyn.

**BEIRNIAID**: Nos Wener. Cerdd: Greg Roberts, Bow Street; Llefaru: Owain Phillips, Gorslas. Sadwrn. Cerdd: Eilir Owen Griffiths, Caerdydd. Llefaru: Sian Teifi, Caernarfon. Llenyddiaeth: Eurig Salisbury, Aberystwyth. Cyfeilydd: Tudur Jones, FRCO, Tywyn.

**LLYWYDDION**: Meinir Davies, Brynglas, Ponterwyd (nos Wener). Dylan Roberts, 10 Garreg Wen, Bow Street (Pnawn Sadwrn); Rhiannon Jones, 4 Garreg Wen, Bow Street (nos Sadwrn)

**ARWEINYDDION**: D. Rees Morgan, Penrhyn-coch, Emyr Pugh Evans, Y Borth, Aled Llŷr, Capel Dewi, Rhian Dobson, Penrhyn-coch, Alun John, Penrhyn-coch.

Nos Wener – yn gyfyngedig i blant lleol: y canlynol yn llwyddiannus:

Llefaru: Osian Holgarth, Noa Rowlands, Arwen Exley, Llion Edwards, Rhys James, Charlotte Richmond, Sioned Exley, Elain Donnelly, Seren Jenkins, Dylan Edwards, Sion Jones, Mared Pugh Evans, Amber Evans, Gwenno Morris, Carys Jones. Parti Llefaru Ysgol Penrhyn-coch.

Cerdd: Arwen Exley, Sion Jones, Osian Holgarth, Charlotte Ralphs, Aneurin Rowlands, Charlotte Richmond, Sioned Exley, Phoebe Elvey, Elain Donnelly, Harry Horwood, Becky Hicks, Mared Pugh Evans, Gwenno Morris, Lowri Donnelly.
Unawd Offeryn Cerdd (YG)
1. Mared Pugh Evans
2. Gwenno Morris
3. Anwen Morris Unawd (YU)
1. Rhys Hedd Pugh Evans
2. Carys Jones
3. Rhian Wynne a Leah Adams

Parti unsain: Ysgol Penrhyn-coch (Gydradd) Offeryn Cerdd (YU) Elin Wallace

Sadwrn: cystadleuwyr lleol
Llefaru: Catrin Angharad, Aberystwyth, Meleri Mai Pryce, Aberystwyth, Gwenno Morris, Penrhyn-coch, Elen Lowri Thomas, Ponterwyd, Eilir Pryce, Aberystwyth, Carys Jones, Penrhyn-coch, Elen Gwenllian, Aberystwyth
Parti llefaru (agored): Parti Mair, Penrhyn-coch
Cerdd: Lisa Davies, Aberystwyth, Cadi Williams, Aberystwyth, Anest Eurig, Aberystwyth, Mared Pugh Evans, Y Borth, Dylan Edwards, Llandre, Efa Edwards, Llandre, Gwenno Morris, Penrhyn-coch, Elen Lowri Thomas, Ponterwyd, Rhys Hedd Pugh Evans, Y Borth, Rhodri Evans, Bow Street, Leah Adams, Penrhyn-coch, Bryn Roberts, Bow Street, Marianne Jones Powell, Llandre.
CÔR: Côr y Penrhyn, dan arweiniad Alun John.
Ensemble: Parti ABC

Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Carys Mai Davies, Brynsiriol, Lluest. Seremoni Tlws yr Ifanc o dan ofal Emyr Pugh Evans, prifathro Ysgol Penrhyn-coch a phlant yr ysgol yn cymryd rhan; Mared Pugh Evans wrth y delyn a Lydia Adams ar y trwmped.

Enillwyd y gadair gan Arwel Rocet Jones, Aberystwyth. Roedd y gadair fach a'r wobr yn rhoddedig gan David a June Griffiths a'r teulu, er cof am Nansi Kenny, Aberystwyth - un a fu'n ffyddlon iawn i'r eisteddfod ar hyd ei hoes. Roedd gofal seremoni y cadeirio yn nwylo D Rees Morgan. Mared Pugh Evans wrth y delyn a Lydia Adams ar y trwmped a chanwyd cân y cadeirio gan Rhys Hedd Pugh Evans. Cyrchwyd y bardd i'r llwyfan gan Elsie Morgan a Bethan Davies. Cyfarchwyd y bardd gan Lona Jones, Heddwen Pugh Evans a Mairwen Jones. Mor hyfryd oedd gweld cymaint o'r bobl ifanc yn cymryd rhan ymhob peth ynglŷn â'r eisteddfod fel arfer. Diolch yn fawr iawn i bawb.



Carys Davies, Aberystwyth, enillydd Tlws yr Ifanc; Carys enillodd y tlwys y llynedd hefyd a bu'n fuddugol yn ennill cadair Eisteddfod Ysgol Gyfun Penweddig eleni



Un o gorau unsain Ysgol Penrhyn-coch



Parti llefaru Ysgol Penrhyn-coch

# Rhyddid

Byd o drefn didrafferth
yn blodeuo'n braf yn ei bryd:
cusan o rosyn coch ar ruddiau'r lilis gwynion
a gwreiddyn o bren afal i'w hudo â gofal a gwên.

Cynllunio a thacluso,
casglu cyngor bach gan hwn a'r llall,
tocio breuddwydion,
buddsoddi gobaith mewn blagur
a disgwyl medi.

Prynu teulu parod:
cadw ci, cynnal cath, mwytho'r lawnt,
chwynnu pob amheuaeth sy'n codi'i phen
a gwrando grwndi'r gwenyn
yng nghlust y lilis gwynion.

***

Y rhosyn yn ddagrau poeth,
y lilis yn gleisiau'n y glaswellt
a ffrwythau'r pren 'di suro
a gollwng gafael ymhell cyn pryd.
Mieri, marchwellt, blodau'n bla,
breuddwydion wedi hedeg
a'u gwreiddiau fel gelod yn y tir.

Y croeso gynt yn faw ci a nyth cath
a chribin rhyw hen ymdrech
yn cael ei sugno fel ango' i'r gro.

Y golwg sydd o'r golwg mewn gardd gefn
a chraith flêr y mynd a'r dod
yn rhedeg yn goch drwy'r brwgaets.

***

Ffin. Ffens. Clwyd. Clo.
Clwt clir sgwâr.
Lawnt o raean mân
a'r llwybr llechen, fel trac trên
rhwng y car a'r drws cefn,
yn mygu'r esgyrn mân a'r gwreiddiau astud
sy'n cofio ochenaid yr awel,
gwên yr haul a'r grwndi'n y glust;
sy'n disgwyl cawod o obaith
a chael siom o wenwyn wedi ei fesur yn ofalus
a'i amseru i dagu'r greddfau
sy'n gyrru'r gwraidd i gofio
am y gwendid a fu.

Cyffiniau cymesur.
Cerrig, concrit a dim un crac.
Byd taclus
heb lilis yn baeddu beunydd,
heb ddilyw o ddeiliach
na chusan bradwrus 'run rhosyn pigog.
Byd o drefn didrafferth
a charreg wastad y llechen lân
yn gwenu yn y glaw.

*Cerdd fuddugol 2007* – Arwel 'Rocet' Jones

# COLOFN MRS JONES

Bum yn y Bala dydd Ll un gŵyl y banc. Nid oeddwn wedi treulio amser yno ers blynyddoedd er fe arferwn adnabod y lle yn bur dda. Fel y gŵyr rhai ohonoch, o Glan Conwy yr hannai fy mam a byddem ninnau yn treulio bob haf yno. Rwan, mae dwy ffordd bosibl i gyrraedd Glan Conwy, trwy Blaenau Ffestiniog - tros y Crimea - neu trwy'r Bala. Ffafria'r rhan fwyaf o bobl sy'n gwneud y siwrne i leoedd megis Llandudno a Bae Colwyn y ffordd trwy'r Blaenau, a'r Crimea, wrth gwrs yw'r enw ar Fwlch y gorddinen, y ffordd o'r Blaenau at Dolwyddelan. Y gred yw bod honno yn fyrrach ffordd ac, er fod yn rhaid i mi gydnabod hynny, fe ffafriaf i ffordd y Bala am ei bod ar un cyfnod o leiaf yn well ffordd ac am ei bod hi'n bosibl aros yn y Bala am sgawt a phaned o de.

A chyda llaw, os ydych chi'n ffansïo trip drwy rhai o fannau harddaf a mwyaf hanesyddol Cymru, awgrymaf eich bod yn mynd am Gerrigydrudion a throi dros Fynydd Hiraethog i Ddinbych a Rhuthun cyn dod yn ol ar hyd yr arfordir ac i lawr trwy'r Blaenau. Fe gewch gyfle i weld rhywbeth sydd yn eich hatgoffa o bob cyfnod yn hanes Cymru a golygfeydd i ryfeddu atynt.

Ond i ddychwelyd at y Bala. I ni Gymry Cymraeg, mae gan y lle arwyddocad arall, wrth gwrs. Dau,a bod yn fanwl. Un yw ei le yn hanes Methodistiaeth Cymru a'r llall yw mai yma y gosododd Islwyn Ffowc Elis farwolaeth yr iaith Gymraeg yn *Wythnos yng Nghymru Fydd*. mae llawer ohonom, mi wn, wedi adrodd - rhai ohonom hyd at syrffed - ddisgrifiad ias oer Islwyn Ffowc Elis o'r hen wraig yn bregliach yr Arglwydd yw fy mugail yn ffwndrus.

Ac yn y Bala y dydd o'r blaen, fe welais ddigon o arwyddion hunllef Islwyn Ffowc Elis. Ymwelwyr yn llond pob lle a dim gair o Gymraeg rhyngddynt, Saeson yn berchnogion busnesau ac o'r busnesau oedd ar werth, asiantaethau o Lerpwl a Manceinion yn eu gwerthu a, chyferbyn a'r Llew Gwyn, rhes o fusnesau bychain Cymraeg eu hiath yn cael eu troi'n wine bar ... diolch i'r drefn, fe welais ddigon o arwyddion fel arall, hefyd. Arwyddion dwyieithog ymhobman a Chymry ifanc yn gweini yn y gwestai a'r siopau a'r Gymraeg yn euraid ganddynt, yr argraff oedd yn fy meddwl i oedd bod y Bala ar dro yn ei hanes, gyda gofal, fe all ffynnu a hynny yn Gymraeg ond fe all pethau droi yn chwerw hefyd.

Ac arweiniodd hyn oll fi i feddwl pam.Yn sicr ddigon, y mae'r trai ar grefydd ac ar wasanaethau cwbl Gymraeg mewn capel ac eglwys wedi bod yn andwyol. Yr oedd cyfnod pan mai Cymraeg oedd gwasanaethau'r eglwys yn y Bala ac fe roedd Coleg y Bala a Methodistiaeth y dref yn rhoi cyflogau i bobl y dref a llwyfan i'r Gymraeg fel ei gilydd. Nid yw'r trai ar amaethyddiaeth a'r cynnydd mewn swyddi twristaidd rhan amser ac isel eu cyflogau wedi helpu dim ar bethau ychwaith na anfodlonrwydd Cymry Cymraeg i fentro mewn busnes. Er, mewn tegwch a hwy, mae'n rhaid cofio ei bod hi yn dal yn haws i Sais gael grant datblygu na Chymro a'r tro diwethaf i mi ddweud hynny, fe roddodd y Bwrdd Datblygu rwystr cyfreithiol arnaf rhag trafod dim ar ei waith! Yr euog a ffy heb neb yn ei erlid?

Mae ateb i bob un o'r problemau hyn. Fe all llywodraeth wneud llawer wella'r sefyllfa trwy greu gwaith ac amddiffyn prisiau tai yn ein cymunedau Cymreiciaf ond y mae llawer allwn ni ei wneud drosom ein hunain, hefyd. Tristwch y sefyllfa heddiw yw gweld cenedlaetholwyr brwd yn ymhyfrydu mewn bod yn bobl ddinesig digrefydd a llysieuol. Hynny yw, pam heidio i'r dinasoedd a gadael eich cymuned eich hun yn agored i fewnfudo? Pam gweiddi am gyfle i'r Gymraeg a throi cefn ar y sefydliadau hynny sy'n ceisio eu gorau glas gadw'r iaith i fynd - hyd yn oed os nad ydech chi'n Gristion, oni ddylai eich cenedlaetholdeb chi eich anfon i gefnogi eich capel neu'ch eglwys leol sy'n dal i fynnu bod yn hollol Gymraeg? Mae'n anodd ar eglwysi fel Elerch a Llancynfelyn ddal ati yn eu Cymreictod ond Duw yn unig a ŵyr faint o genedlaetholwyr sy'n gwrthod a'u cefnogi. A phwy a wyr na enillent gyfle i achub eu henaid yn ogystal? A pha iws yw llysieuwr o genedlaetholwr i bobl sy'n dibynnu ar fagu cig? A pha mor foesol yw gwerthu tŷ dad a mam am grocbris i Saeson a dychwelyd i'ch dinas ddwyieithog i weiddi am brisiau teg i bobl leol?

A ran hynny, paham na ddychwelwch chi i'ch ardal enedigol a chychwyn busnes?

Mentro sydd ei angen arnom i gyd, mentro a gwneud yr hyn sydd ddyletswydd arnom. Oes, mae angen protestio, ond mae protest yn fwy effeithiol lawer pan fydd yn cydfynd a byw eich daliadau! A beth bynnag yw gwendidau Mrs Jones, mae hi yn ceisio ei gorau glas fyw i'w phobl ac ymarfer ei phregethau.

# 'O'R CYNULLIAD' - ELIN JONES AC



Erbyn i chi ddarllen y golofn hon bydd holl gyffro'r ymgyrchu ar gyfer etholiadau Cyngor Sir Ceredigion wedi mynd a dod ac rwy'n llongyfarch ac yn edrych ymlaen at gydweithio gydag ein Cynghorwyr newydd yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yn ychwanegol i'r ymgyrch Cyngor Sir, mae dyfodol ein Swyddfeydd Post yng Ngheredigion wedi parhau i hawlio fy sylw yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rwyf wedi mynychu cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar hyd a lled Ceredigion i wrthwynebu cynlluniau'r Post Brenhinol i gau'r Swyddfa Bost leol, ac mae'n amlwg iawn bod y trigolion lleol yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth mae'r postfeistri lleol yn ei gynnig. Rwy'n gobeithio'n fawr fod y cynrychiolwyr o'r Post Brenhinol oedd hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd yma wedi talu sylw i'r teimladau cryf yma yn y gymuned leol ac fe hoffwn atgoffa trigolion Ceredigion bod ganddynt tan 19 Mai 2008 i fynegi eu barn yn ysgrifenedig i swyddogion y Post Brenhinol.

Wrth i'r nifer o Swyddfeydd Post leihau, dim ond dros y ffôn neu ar y we y gellir cael mynediad at rai gwasanaethau mewn nifer o gymunedau gwledig erbyn hyn. Mae'r ffaith nad oes gan rannau o Geredigion fodd i dderbyn cysylltiad rhyngrwyd fand-eang felly yn fy mhoeni'n fawr. Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn casglu manylion trigolion Ceredigion sy'n wynebu'r drafferth yma ac fe gwrddais â Dirprwy Brif Weinidog y Cynulliad, Ieuan Wyn Jones AC, yn ddiweddar i drafod y mater. Roeddwn yn falch iawn i glywed bod Llywodraeth y Cynulliad bellach mewn trafodaethau gyda BT a chwmnïau telathrebu eraill i weld sut y gallant ddelio â'r broblem hon sy'n effeithio ar nifer o gymunedau ar draws Ceredigion.

Yn olaf, roedd yn fraint fawr i gael agor bore coffi Cymdeithas Clefyd Parkinson yn Neuadd Waunfawr, Aberystwyth, yn ddiweddar. Roedd y digwyddiad yn nodi wythnos arbennig i godi ymwybyddiaeth am y clefyd ac roedd yn gyfle i gwrdd â dioddefwyr Parkinson o'r ardal leol.

Elin Jones AC

GWESTY
Tynycornel
HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ

Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cyfan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.

**Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.**

AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782 282

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

## Mr Hughie Lloyd Rees gynt o Glasnant Pen-llwyn

Hunodd Mr Hughie Rees ar Ebrill 10ed yn 80 mlwydd oed, yng nghartref Blaen- nos, Llanymddyfri.

Collodd ei briod hoff Iris, ddwy flynedd yn ôl, pan oeddynt ill dau wedi ymgartrefu yn hapus gyda'i gilydd yng nghartref Blaendyffryn, Llandysul, oherwydd diriwiad yn iechyd y ddau.

Ond, ni bu Hughie byth yr un fath wedi colli Iris, a chafodd ei symud ym mhen amser i Blaen-nos am ofal arbennig.

Bu angladd Mr Rees yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Iau Ebrill 17ed yng ngofal Parchedig D. J. Goronwy Evans, a roddodd deyrnged haeddiannol iddo.

Dyn ei filltir sgwâr oedd Hugh, meddai, a dim yn rhoi mwy o bleser iddo na dychwelyd i Parcrhos, Cwm-ann, a chwrdd â ffrindiau bore oes ar sgwâr Llambed.

Roedd ganddo ddwy chwaer Bet a Gwennie, ac aeth i ysgol Coedmor, Cwm-ann pan yn ieuanc. Collodd ei fam ym 1947, a bu eu chwiorydd yn ofalus iawn ohono y pryd hynny.

Gwnaeth ei brentisiaeth gyda Chigydd , I. G. Williams Llanbed, a'i hyfforddi gan neb llai na thad y Parchg Goronwy Evans, a buont yn ffrindiau mynwesol byth ers hynny.

Collodd Hughie ei dad eto ym 1967, ond trodd ei wyneb tua ardal Aberystwyth, ble iddo gwrdd â'i wraig hyfryd Iris. Cafodd waith efo'r Comisiwn Coedwigaeth, sy'n egluro sut yr adnabu ef fel "Hugh Trees", a buont yn byw yn Glasnant, Pen-llwyn am flynyddoedd lawer.

Roedd Hughie yn hoff iawn o ganu a deuai o deulu cerddorol. Pan yn ieuanc roedd capel Brondeifi pryd hynny, yn llawn o gantorion. Roedd yn hoff iawn o ganeuon Dafydd Iwan.

Roedd bob amser yn mynd â hiwmor a llawenydd i ble bynnag yr âi. Mae'r gair llawenydd, meddai'r Parchg Goronwy Evans yn ei ddisgrifio i'r dim.

Torrwch y gair yn dri, "Llaw"- roedd Hughie yn helpu pawb, ac yn cynnig llaw i bwy bynnag oedd eisiau cymorth. Byddai ar un adeg yn mynd a phlentyn anabl allan ar hyd Aberystwyth yn wythnosol. A phwy ond Hughie a'i wraig fyddai yn agor eu tý i ddau o fechgyn digartref? a ddaethant i Aberystwyth un tro gyda'r ffair. Do, bu John a Wayne yn ffodus iawn o'u lletygarwch, a da oedd eu gweled yn yr angladd.

Gwên yw rhan nesaf o'r gair, a gŵr cysurus bob amser yn llawn digrifwch a gwên fawr ar ei ŵyneb oedd Hughie.

Yna "dydd"- roedd y llawenydd hwn yn llanw ei fywyd yn ddyddiol. "Byddwch lawen a hyfryd" oedd ei arwyddair yn siwr.

Siaradai Hughie â phawb, wedi gwisgo yn drwsiadus a phob blewyn yn ei le. Wedi colli ei fam, dywedir na allai Gwennie startsio ei grys ddigon caled!

Cefnogwyd y gwasanaeth gan amryw o ffrindiau Clwb Rygbi Aberystwyth, a chyflwynwyd teyrnged arall iddo, ar ran y Clwb, gan Dilwyn Jones, a arferai fyw, pan yn blentyn, drws nesaf, pan oedd Hughie a'i wraig yn byw gyda George Harvey, ei dad yng nghyfraith. Garddwr oedd George, a chofia iddo ei ddwrdio yn barhaus pan âi y bêl i mewn i'r ardd, ac yntau yn ceisio ei chael yn ôl heb ofyn caniatâd. Yr atgofion cyntaf o Hughie yn y ffenest, yn wên i gyd pan fyddai hyn yn digwydd, cans fel y dywedir eisioes, dyma un o'i nodweddion.

Cofiai Dilwyn fod gan y dyn hwn amser i siarad, dyn smart, a blazer crys a thei bob amser. Ond methu deall am hir, mai i'r Clwb Rygbi yr âi bob Sadwrn fel y banc.

Do, fe wnaeth cymaint o waith gwirfoddol i'r Clwb, o'r chwedegau hyd y nawdegau – yn tacluso a llosgi sbwriel nes bod mwg mawr yn codi dros Llanbadarn yn aml iawn. Bu yn gymorth gwerthfawr i'r stiwardiaid a'r chwaraewyr, dros amser maith, a chafodd ei wobrwyo ym 1982 fel aelod oes o'r Clwb, a gwerthfawrogodd hyn yn fawr iawn.

Rhaid oedd i Dilwyn yn ei deyrnged i grybwyll y " brên wêf " a gafodd Hughie i gynyrchu pentwr o anifeiliaid a dynion bach concrid i'r ardd. Ond anodd credu fod chwaraewyr Sir Benfro yn or gyffrous pan yn cael eu hanrhegu gyda'r pethau bach concrid bondigrybwyll hyn! Mae'n siwr fod gan lawer ohonoch y cofgolofnau bach rhain, o hyd yn eich gerddi.

Ie gyda direidi a gwên, y dilynai Hughie hynt a helynt y chwaraewyr.

I'r tîmau ieuanc yr ysgolion, roedd Iris wedi gwneud yn siwr, fod gan Hughie ddigon o bicau bach ar y maen, i'r plant ar ôl pob gêm.

Fe wnaeth heb os, waith diflino yn y Clwb Rygbi a phawb yn hapus yn ei gwmni.

Coffadwriaeth da amdano fel gĐr caredig, a dywed llawer heddiw, diolch am ei fywyd a'i gyfeillgarwch.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu, ei ffrindiau a'r cysylltiadau oll.

## Neuadd y Pentref

Carai Melanie Hughes (880811) a Liz Lawton (880448) eich atgoffa fod coffi cacennau a chymdeithasu yn dal i ddigwydd yn y neuadd pob prynhawn Llun cyntaf y mis, ar wahân i wyliau y banc. Mae hyn wedi profi yn llwyddiant gydag unrhyw elw tuag at y neuadd. Gellir cymryd rhan hefyd mewn raffl a thombola, felly cofiwch amdano prynhawn Llun cyntaf y mis, a noder fod yr amser newydd o 2 – 4 o'r gloch. Dewch yn llu.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Dewi a Nicole Gwynne, Tynffordd Uchaf, ar enedigaeth eu hail fab a anwyd 22ain o Ebrill. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mr Peter Humphreys Fron, Gareth, Gerallt ac Aled, ar golli tad a thad-cu annwyl, sef Mr Norman Humphreys, Waun-fawr.

## Ysbyty

Wrth fynd i'r wasg, roedd Mrs Gwyneth Harries Cefnmelindwr, a Mrs Kath Cooper Minafon yn dal yn yr ysbyty. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonynt.

## Newyddion am Gyn Ddisgybl yr Ysgol

Llongyfarchiadau i Glyn Jones (Aelybryn gynt) 'nawr o *Ball & Co Caerdydd*, Arolygwr Adeiladau Siartedig yng Nghaerdydd, ar dderbyn gwobr Aur yn seremoni gwobrwyo cenedlaethol y Post Brenhinol yn Llundain.

Derbyniodd y cwmni wobr Aur hefyd, am gael 98% am eu gwasanaeth bodlonrwydd Cwsmeriaid y Post Brenhinol. Clod yn wir!

Hefyd llongyfarchiadau i Teleri priod Glyn, sydd wedi cael swydd newydd yn Swyddog Datblygu i Fudiad Ysgolion Meithrin. Mae yn gyfrifol am helpu i ddatblygu cylchoedd Meithrin *Ti a Fi*, yn ardal Rhondda Cynon Taf.

Pob lwc i'r ddau ohonynt.

## Priodas

Dymuniadau gorau am Briodas Dda i Jonathan Lewis ac Angharad Rees, a fyddant erbyn dyddiad cyhoeddi wedi clymu'r cwlwm serch yng nghapel Seion, ar y 10fed o Fai. Fe gewch lun a rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf.

## Diolch

Dymuna Fred Williams ddiolch i'w gefnogwyr a bleidleisiodd iddo ar Fai 1af. "Mae wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd", meddai, "i wasanaethu Cymuned Melindwr yn ystod y dair mlynedd ar ddeg ddiwethaf. " Llawer o ddiolch. Hefyd, pob lwc a dymuniadau da i Rhodri Davies i'r dyfodol.

# TREFEURIG

## Pen blwydd hapus

Dymuniadau gorau i Linda Griffiths, Maesmeurig, a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

# Gogerddan yn ôl yn rhan o Brifysgol Aberystwyth

Ganol fis Ebrill unodd dau o brif sefydliadau ymchwil Cymru i greu canolfan newydd o safon ryngwladol i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf sy'n wynebu'r byd yn yr 21fed ganrif.

Roedd y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, a'r Gweinidog Plant, Addysg, Addysg Gydol Oes a Sgiliau, Jane Hutt, yn Aberystwyth dydd Iau, Ebrill 17 i gyhoeddi fod y Sefydliad Ymchwil Tir Glas ac Amgylchedd, IGER, yn uno i fod yn rhan o Brifysgol Aberystwyth. O ganlyniad i'r uno, bydd Prifysgol Aberystwyth yn cyhoeddi fod sefydliad newydd o bwys yn cael ei greu ym maes ymchwil ac addysgu.

Mae Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) yn uniad rhwng IGER a dwy o adrannau presennol y Brifysgol, y Sefydliad Gwyddorau Biolegol a'r Sefydliad Gwyddorau Gwledig i greu'r casgliad mwyaf o wyddonwyr a staff cefnogol yn y maes hwn yn y Deyrnas Unedig. Bydd y sefydliad newydd yn chwilio am atebion creadigol i rai o'r newidiadau mawr yn amgylchedd y byd, gan dynnu at ei gilydd dîmau o wyddonwyr i greu gwaith arloesol a fydd o gymorth ymarferol i ffermwyr ar draws y byd. Gyda staff o fwy na 300 a chyllideb o fwy na £20 miliwn y flwyddyn, bydd IBERS mewn sefyllfa ddelfrydol i ymateb i'r her fyd-eang mewn meysydd fel defnydd cynaliadwy o dir, newid hinsawdd a sicrwydd cyflenwadau dŵr a bwyd.

Bydd IBERS hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd i fwy na 1,000 o fyfyrwyr gradd ac ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bydd y buddsoddiad cychwynnol o fwy na £50 miliwn yn arwain at adnoddau dysgu ac ymchwil newydd yng Ngogerddan ac ar gampws Pen-glais yn Aberystwyth.

Yn Gyfarwyddwr ar y Sefydliad newydd penodwyd yr Athro Wayne Powell, sydd ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr a Phrifweithredwr Sefydliad Cenedlaethol Botaneg Amaethyddol (NIAB) yng Nghaergrawnt. Bydd yr Athro, ddaw'n wreiddiol o Abercraf ym mhen uchaf Cwm Tawe ac sydd yn raddedig o Brifysgol Aberystwyth, yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Medi 2008.



Yr Athro Wayne Powell



Staff 1958

Wrth siarad am ei benodi mynegodd yr Athro Powell ei ymroddiad i gynorthwyo IBERS i ddatblygu yn "adnodd cenedlaethol sydd â dylanwad rhyngwladol".

Dywedodd ei fod wrth ei fodd yn dychwelyd i Gymru i "fyw a gweithio mewn cymuned gefnogol iawn, a chyfrannu ati." .

Mewn swyddi blaenorol yr Athro Powell oedd pennaeth cyntaf Ysgol Amaeth a Gwin, Prifysgol Adelaide, Awstralia, a Dirprwy Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Cnydau yr Alban. Bu hefyd yn gweithio am gyfnod i gwmni DuPont yn Wilmington, Delaware, Unol Daleithiau'r America.



Llun o weithwyr Gogerddan – tua 88 – a dynnwyd tua 1910
Diolch i Ian Sant am y copi

# Atgofion 50au a 60au

Ymunais a staff Bridfa Planhigion Cymru Fis Tachwedd 1955. Ar yr adeg yma roedd y Sefydliad yn cael ei reoli gan Gyngor y Coleg, ac wedi newydd symud i Gogerddan o Ben-glais, o dan gyfarwyddyd yr Athro E.T.Jones. Roedd y Fridfa ar gychwyn ar adeg cyffrous o ddatblygiad gyda phenodiad staff newydd a rhaglen ehangach o waith.

Dechreuais weithio yn yr Adran Bridio Ydau gyda'r Dr. D.J.Griffiths yn bennaeth cefnogol iawn.. Yr uchelgais oedd bridio mathau newydd o yd a chnydau tir ar, i gwrdd ag angen y diwydiant ffermio yn y blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd, gyda'r pwyslais ar gynhyrchu mwy o fwyd. Ceirch oedd yn cael y sylw mwyaf arbennig yr amser hyn. Roedd angen mathau newydd, gyda mwy o rawn da a gwellt cryfach, a allai gadw'r cnwd i sefyll ar ei draed pan yn tyfu ar dir oedd yn cael mwy a mwy o wrtaith gan ffermwyr. Fel canlyniad o ddefnyddio mwy o wrtaith roedd clefydau a.a. yn cynyddu.

Felly, roedd pwysigrwydd cynyddol yn cael ei roi ar wrthsafiad i glefydau a phla. Roedd yn golygu llawer o ymchwil a chael gafael am y genynau fyddai'n medru eu gwrthsefyll. Cafwyd y genynau yma o ffynnonellau led-led byd, ac hefyd gyda aelodau o'r staff yn casglu mathau cynhenid o'r rhywogaeth gwyllt o gaeau ffermwyr yn Adran Môr y Canoldir, a'r Dwyrain Canol.

Apwyntiwyd yr Athro P.T.Thomas yn gyfarwyddwr yn gynnar ym 1959. Cynyddodd y gwaith yn yr adran Bridio Ydau, fel yn adrannau eraill o'r Fridfa yn y 60 a'r 70 degau, gan olygu adeiladu labordai newydd, a datblygiad eang mewn tai gwydr soffistigedig, ac mewn tir ar gyfer arbrofi.

Fel âi'r amser ymlaen, roedd polisi'r Llywodraeth yn rhoi pwyslais ar ymchwil mwy sylfaenol, ac fe drosglwyddwyd peth o'r gwaith o ddosbarthu mathau newydd o rai o'r cropiau i'r Sector Breifat.

Yn ystod yr adeg yma gwelwyd cynnydd yn nifer y staff, yn aml o'r tu allan i Gymru, ond yn buan y daeth y rhan fwyaf ohonynt i doddi i mewn yn llwyddiannus i'r gymdeithas leol. Agwedd boddhaol arall oedd y cyfle i gyflogi pobl ifanc lleol wrth adael yr Ysgol, oedd yn eu galluogi i gael profiad yng ngwaith y Fridfa, tra yn mynychu dosbarthiadau yng Ngholeg Addysg Pellach, ac ennill tystysgrifau. Roedd rhain yn ogystal a staff y fferm wedi rhoi cefnogaeth hanfodol i waith y Fridfa dros y blynyddoedd.

Roedd y Fridfa yn denu myfyrwyr ac Ymchwilwyr profiadol o'r wlad hon a thramor, a thrwy hynny sicrhau bod Aberystwyth yn enwog fel Canolfan Ymchwil Byd-eang.

Yn ystod y 50 a 60 degau roedd llawer o'r staff yn ifanc, sengl neu newydd briodi, ac yn creu cymdeithas fywiog, gyda naws deuluol hapus. Ffurfiwyd timau Hoci, Tennis, a Chriced, ac roedd y partïon Nadolig yng Ngwesty'r Hafod, a'r Ŵyl Haf flynyddol ar lawnt y Plas yn chwedlonol.

Wrth edrych yn ôl rwyn sylweddoli fy mod wedi mwynhau amser hapus a boddhaol yn fy ngyrfa yn y Fridfa , ac o gael y cyfle eto, ni fyddwn wedi dewis dim arall.


**Yr Athro Emeritws Desmond Hayes, Y Borth,**



Edward Heath ar ymweliad â'r Fridfa - Roy Hughes, Desmond Hayes, Goronwy ap Griffith, P.T. Thomas, Ted Heath a Dafydd Miles



Adran Bridio Yd y Fridfa 1962 - Rhes gefn: Trevor Peregrine, Dafydd Lewis, Margaret Morgan, Ethel Lewis, D.L. (Dei) Jones, I.T. Jones; rhes flaen: Tom Johnston, Gareth Rowlands, D.J. Griffiths, Desmond Hayes, Idris Jones



Ymweliad David Gibson Watt, Gweinidog Gwladol Cymru yn nechrau'r 1970au

# Y Rhod yn Troi i'r Fridfa

Ym 1919 sefydlwyd Bridfa Blanhigion Cymru trwy weledigaeth a brwdfrydedd heintus Athro Botaneg Amaethyddol y Brifysgol - George Stapledon a haelioni yr Arglwydd Milford. Pryd hynny roedd yr adran yn cartrefu yn yr hen ffowndri yn Heol Alecsandra a Stapledon yn cymryd swydd ychwanegol fel Cyfarwyddwr y Sefydliad newydd.

Penodwyd grŵp o raddedigion talentog i arwain ymchwil i fridio glaswellt, meillion a llafur ac i astudio ffyrdd manteisiol yw tyfu. Er bod y cyfleusterau labordai i'n tyb ni heddiw yn gyntefig, fe wnaed gwaith da a sylfaenol mewn maes hollol newydd. Roedd y tiroedd arbrofi yn ymestyn o erddi Caergog (cartrefi nyrsys heddiw) i Ben-glais (campws y Brifysgol) a ffermydd Brynamlwg a Fron-goch.

Dechreuais ar fy ngyrfa yn y Fridfa ym 1944 - amser argyfyngus i bawb. Fe ddaeth cynhyrchu bwyd yn destun tyngedfennol. Ar ddechrau'r Rhyfel fe adawodd Syr George Stapledon a'r Dr William Davies a'i gydweithwyr yn yr Adran Agronomeg i ffurfio Sefydliad Ymchwil Tir Glas yn Stratford. Ar ben hyn ym 1940 secondiwyd penaethiaid yr adrannau i fod yn Swyddogion i'r "War Ag" yn siroedd dalgylch y Brifysgol. Symudodd pencadlys y Fridfa ym 1940 i adeilad newydd - y cyntaf ar Gampws Pen-glais.

Prynwyd Stad Gogerddan gan y Brifysgol a symudodd y Fridfa i Blas Gogerddan ym 1953. Codwyd labordai, tai gwydr a chyfleusterau eraill a defnyddiwyd fferm y Plas i gynnal arbrofion. Roedd y tir gwastad yn welliant mawr ar y safleoedd a adwyd ar ôl ym Mhen-glais a Fron-goch.

Roedd rhif y staff yn cynyddu oddi ar ddiwedd y rhyfel, yn cael eu hariannu gan Gyngor Ymchwil Amaethyddol yn Llundain ac yn y man fe ddaeth y Fridfa dan lwyr reolaeth y Cyngor. O'r wythdegau ymlaen polisi'r llywodraeth oedd torri ar wario cyhoeddus o phreifateiddio lle roedd hyn yn bosibl.

A dyma ni nawr yn 2008, y rhod wedi troi a'r Fridfa yn nôl dan adain y Brifysgol. Ond y tro hyn mae yn rhan o sefydliad newydd - IBERS sy'n cyfannu Sefydliadau presennol Gwyddorau Biolegol a Gwledig y Brifysgol ac IGER, gydag oddeutu 300 o staff.

**W. Ellis Davies, Llandre**




# YSGOL PEN-LLWYN

## Disgybl newydd

Mae'n hyfryd cael croesawu plentyn newydd i'n plith - sef Llŷr Evans, Pwllcenawon.

## Trawsgwlad yr Urdd

Aeth pedwar o blant yr Urdd i gynrychioli'r ysgol yn y cystadlaethau trawsgwlad. Llongyfarchiadau i Amy Dryburgh, Tomos Evans a Jo Jones am ddod o fewn y pymtheg cyntaf.

## Diwrnod coch gwyn a gwyrdd

Cyfranwyd £40 at Gronfa Eisteddfod yr Urdd 2010. Roedd y plant wedi gwisgo dillad coch gwyn a gwyrdd i ddod i'r ysgol ar y diwrnod arbennig hwn.

## Cystadleuaeth Pêl-droed

Aeth naw o fechgyn yr ysgol i gystadlu pêl-droed. Llongyfarchiadau fechgyn am ymdrechu mor dda. Dyma'r canlyniadau: Ennill -2 Cyfartal-1 Colli-2




Diolch yn fawr i M&C Cabs am gyfrannu'n hael at ein hysbysfwrdd allanol newydd. Rydym yn siwr y bydd yr hysbysfwrdd o fantais mawr i'r ysgol, er mwyn hysbysu'r rhieni o'r gweithgareddau sydd ynghlwm â'r ysgol.



Jo, Tomos ac Amy a wnaeth mor dda yng nghystadleuaeth trawsglad y Sioe.



Tim saith-bob-ochr Ysgol Pen-llwyn



# YSGOL PENRHYN-COCH

## Llanerchaeron

"Aethon ni i Lanerchaeron i ddysgu mwy am hen gartrefi. Roedden ni yn y grÐp gwyrdd. Roedd pawb yn golchi dillad gyda sebon, brws, twb a doli. Gwaith caled!

Wedyn, cawsom gyfle i chwarae gyda hen deganau. Hwyl a sbri!!

Roedden yn llwgu ar ôl hyn. Cyfle i gael cinio.

Cyn mynd yn ôl i'r ysgol aethon ni yn y plas. Roedd y lle yn enfawr! – mwy o faint na'r ysgol.

Mae Llanerchaeron yn wych! Gobeithio y cawn fynd nôl eto.

Seren a Charles

## Pêl-droed

Yn ddiweddar bu tîmau pêl-droed yr ysgol yn chwarae yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd. Bu'r merched a'r bechgyn wrthi yn cystadlu yn frwd iawn ac er ennill nifer o gemau ni lwyddwyd i fynd ymhellach. Da iawn i bawb a fu'n chwarae.

## Mererid Hopwood

Cafwyd gwahoddiad i rai o ddisgyblion Blwyddyn 5 yr ysgol i fynychu gweithdai barddoni dan arweiniad y Prifardd Mererid Hopwood. Treuliwyd un sesiwn eisioes yn edrych ar sut i fynd ati i gychwyn ar farddoni cyn creu darn syml. Yn ystod yr ail sesiwn aethpwyd ar y tren i Friog, ger y Bermo. Yn ystod y daith rhaid oedd sylwi ar yr olygfa a nodi yr hyn a welwyd. Yn Friog, cafwyd cyfle i deithio i lawr i lan y môr er mwyn nodi beth a glywyd ac arogleuwyd. Ar y ffordd yn ôl cafwyd stori gan Mererid yn stesion Machynlleth a chyfle i greu darn o farddoniaeth yn seiliedig ar y daith.

## Eisteddfod y Penrhyn

Ar nos Wener Eisteddfod y Penrhyn, gwelwyd nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn frwd. Cafwyd unawdau canu, llefaru ac offerynnol ynghyd â phartion a chôr . Diolch i bawb a ddaeth i gymryd rhan. Dyma restr o'r enillwyr.

<u>Unawd dosbarth derbyn</u>
Charlotte Ralphs
<u>Llefaru dosbarth derbyn</u>
Llion Edwards
<u>Unawd blwyddyn 1 a 2.</u>
Sioned Exley
<u>Llefaru blwyddyn 1 a 2</u>
Sioned Exley
<u>Unawd blwyddyn 3 a 4.</u>
Harri Horwood
<u>Llefaru blwyddyn 3 a 4.</u>
Dylan Edwards
<u>Unawd Blwyddyn 5 a 6.</u>
Mared Pugh-Evans
<u>Llefaru Blwyddyn 5a 6.</u>
Mared Pugh-Evans
<u>Unawd Offerynnol Cynradd.</u>
Mared Pugh-Evans

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymryd rhan ac i ddisgyblion blwyddyn 6 a ddaeth i fod yn rhan o seremoni tlws yr ifanc.

## Gwasanaeth Tân

Cafwyd ymweliad gan Karen Roberts o'r gwasanaeth tân. Treuliodd fore cyfan yn sgwrsio gyda'r disgyblion am wahanol bethau yn ymwneud a thân a sut i gadw'n ddiogel. Gwyliwyd fideo a chafwyd cyfle i wisgol i fyny fel diffoddwr tan! Diolch i Karen am ddod.

## Harriet Earis

Braf oedd croesawu y delynores Harriet Earis atom yn ystod y mis. Treuliodd Harriet amser gyda'r disgyblion i gyd yn chwarae alawon gwerin traddodiadol o bob rhan o'r Gwledydd Celtaidd. Bu'n sôn am ei thelynau ac am rai o'r darnau y bu yn chwarae. Ar ddiwedd y sesiwn, cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau ar y diwedd gwahoddwyd y disgyblion i gael tro yn chwarae y telynau. Diolch i Harriet am ei hamynedd ac i Ganolfan y Celfyddydau am drefnu'r gweithgaredd.

## Trawsgwlad

Yn ystod tymor yr Hydref bu disgyblion blynyddoedd 3-6 i gyd yn rhedeg yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd, Cylch Aberystwyth. Llwyddodd tri o'r rhedwyr i ennill drwodd i redeg yn nghystadleuaeth y Sir. Cynhaliwyd y rasys hyn yng Ngwersyll Llangrannog. Braf ydy nodi i Matthew Merry ennill ei ras ef gyda Harri Horwood yn agos ar ei sodlau yn drydydd. Da iawn i'r ddau ohonoch. Yn y râs i fechgyn blwyddyn 6, llwyddodd Harry Whalley i ddod yn 9fed. Da iawn ti.



Sion Hywel, Sion Wyn a Sioned Exley yn chwarae telynau amrywiol yn ystod ymweliad Harriet Earis


Disgyblion dosbarth 2 ar eu hymweliad a Llanerchaeron


Tim hoci'r ysgol yn ei cit a noddwyd gan Gwmni Ffigar.


Enillwyr gwobrau yng Nghystadleuaeth Celf a Chrefft Rhanbarthol yr Urdd

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Penwythnos yn Llangrannog

Mae'r ysgol yn parhau i fod yn brysur iawn; ar y 18fed o Ebrill fe deithiodd 47 o blant blynyddoedd 4, 5 a 6 i Langrannog am y penwythnos er mwyn profi a mwynhau nifer o weithgareddau difyr yng Ngwersyll yr Urdd.

## Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd

Ar y 18fed o Ebrill dathlwyd diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yn yr ysgol. Pwrpas y trefniant oedd codi arian i'r Urdd. Cafodd pawb yn yr ysgol gyfle i wisgo dillad lliwiau'r Urdd. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £109.10 i'r Urdd.

## XLWales

Cafwyd ymweliad arall gan Mr Eifion Collins, XLWales ar y 29ain a'r 30ain o Ebrill. Mae Mr Collins yn ymweld â'r ysgol ddwywaith y flwyddyn er mwyn datblygu sgiliau technoleg a gwyddonol y plant. Mae'r plant yn mwynhau cwblhau y tasgau yn fawr iawn ac y mae gweithgareddau Mr Collins yn parhau i fod yn hynod o ddifyr.

## Cyfathrebu â Gwlad Ghana

Trefnwyd y cyfathrebiad arbennig yma er mwyn codi ymwybyddiaeth parhaus y plant i gynllun Masnach Deg ar y cyd gyda Diane Isenberg a 'Trading Vision'. Dyma gofnod un o aelodau'r pwyllgor:-

Yn ddiweddar siaradais i a gweddill aelodau Pwyllgor Eco'r Ysgol gyda nifer o blant ysgol yn Ghana trwy gysylltiad ar 'we gamera.' Ar ôl trafod a chymharu bywyd yn y ddwy wlad; dysgais lawer o bethau am fywyd yn Ghana; roedd y rhan fwyaf o rieni'r plant yn ffermwyr 'coco' ac yr oeddwn yn falch o glywed eu bod yn gwerthu eu cynnyrch i gwmnïau Masnach Deg. Siaradom ni am beth oeddynt yn ei wneud ar ôl ysgol, beth yw'r tywydd fel yn Ghana a beth oeddynt yn hoffi ei wneud yn a thu allan i'r ysgol. Roedd yn brofiad diddorol iawn, a dysgais nifer o bethau pwysig iawn.

Tomos Gillison Blwyddyn 5



Plant Y Pwyllgor Eco yn siarad trwy'r we gamera gyda plant yn Ghana.



Tîm pel-droed Merched yr ysgol.
o'r chwith cefn - Katherine Lewis, Samantha Keegan, Lucy Ankin, Ffion Wyn Roberts, (blaen) Hannah Lee, Bethan Henley, Cerys Harvey, Ffion Evans, Hannah Miles



Rhai o blant yr ysgol yn mwynhau Penwythnos Llangrannog

**Gwefan Swyddogol Yr Ysgol**
**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau ewch i:-**
**http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**

## Gwasanaethau

Mae Y Parchedigion Richard Lewis, Andrew Lenny a Wyn Morris bellach wedi cyfrannu i wasanaethau boreol yr ysgol yn ystod y tymor yma. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn iddynt am eu hamser a'u cyfraniadau gwerthfawr.

## Chwaraeon

Cynhaliwyd cystadleuaeth trawsgwlad rhanbarth Ceredigion Yr Urdd ar y 25ain o Ebrill yn Llangrannog. Teithiodd saith o blant o'r ysgol i'r gwersyll er mwyn cynrychioli cylch Aberystwyth. Llwyddodd y naw i orffen y cwrs yn effeithiol a llongyfarchiadau mawr iddynt hefyd gan fod pob un ohonynt wedi llwyddo i orffen yn y dwsin cyntaf; Katherine Lewis (bl 6-nawfed), Iestyn Evans (bl 6 wythfed), James Albrighton (bl 5-unfedarddeg), Ffion Evans (bl 4-ail) Lucy Ankin (bl 4-unfedarddeg) Sion Ewart (bl 4-cyntaf) Sion Manley (bl 3-chweched). Campus!

Ar y 29ain o Ebrill, bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon; ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf.

Ar ddiwedd y dydd ac ar ôl curo 5 ysgol, llwyddodd y merched i gyrraedd y rownd derfynol ond colli bu'r hanes ar giciau o'r smotyn-anlwcus iawn. Curodd y bechgyn 4 o ysgolion ond methu wnaethant o drwch blewyn i gyrraedd y rownd gyn derfynol. Llongyfarchiadau mawr i chwaraewyr y ddau dîm am eu hymdrechion ardderchog.

## Noson Agored

Cynhaliwyd noson agored yn yr ysgol ar y 28ain o fis Ebrill. Cafodd y rhieni gyfle i weld gwaith y plant a chael sgwrs gyda'r athrawon.

## Estyniad Newydd

Mae gwaith ar estyniad newydd yr ysgol wedi dechrau. Mi fydd y gwaith yn parhau am flwyddyn. Yr adeilad yma fydd cartref newydd yr uned Feithrin/ Derbyn o ganlyniad i'r hen ysgol yn cau fis Hydref ddiwethaf.




**Elwyn Jenkins**
*Pwll, Pêl a Phulpud*
**Gwasg Gomer 112t.**
**£7.99**

Cafodd y Parch. Elwyn Jenkins ei eni yn ym Mhentwyn, ger Cross Hands yng Nghwm Gwendraeth. Bu'n gweithio ym Mhwll Glo'r Mynydd Mawr o 1948 tan 1959, ac yn chwarae rygbi dros y Tymbl, Llanelli ac Abertawe. Chwaraeodd rygbi dros Gymru yn erbyn y Llewod Prydeinig yn 1955.

Yn ddiweddarach yn ei yrfa trodd at y weinidogaeth. Aeth i Goleg Trefeca yn 1959 ac yna i'r Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth. Rhwng 1964-1970 bu'n weinidog ar Gapel Moriah, Brynaman a chapel Brynllynfell yng Nghwmllynfell. Yn 1970 aeth yn weinidog i'r Tabernacl yn Aberystwyth. Ers 1998 bu'n bugeilio Eglwysi Shiloh, Llanbed, Salem, New Inn a Maesffynnon, Llangybi.


Dull yr hen bregethwyr o ddal sylw eu cynulleidfaoedd fyddai codi tri phen, ac yn y gyfrol ddifyr ac anarferol hon, mae'r Parchedig Elwyn Jenkins yn codi tri phen ei fywyd cyfan!

Dyna'r pwll: glofa'r Mynydd Mawr, lle treuliodd y bachgen ifanc ei ddyddiau gwaith cynnar yng nghwmni digymar y glowyr a chymdeithas glòs Cwm Gwendraeth. Pêl wedyn – y bêl hirgron; yn ei oriau hamdden, disgleiriodd Elwyn ar y cae rygbi i rai o dimau mwyaf Cymru: yng nghrys Sgarlad Llanelli; gyda chlwb rygbi Abertawe, a hyd yn oed yn y prawf terfynol dros Gymru ar Barc yr Arfau. Ac yna'r pulpud; ers blynyddoedd lawer bellach, bu Elwyn Jenkins yn weinidog yr efengyl; mae'n diolch bod 'ei linynnau wedi disgyn mewn lleoedd hyfryd.'

Glo, rygbi ac Anghydffurfiaeth: mae'r nodweddion hynny a ddaeth mor symbolaidd o dde Cymru i'w cael yn naturiol a gwirioneddol ym mywyd Elwyn Jenkins. Er mai hunangofiant un dyn sydd yma, mae'n cwmpasu ffordd o fyw cymdeithas gyfan.

Bydd holl elw'r llyfr yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol.

---




## Gwobr Cyfraniad Oes i Elwyn

I goroni Gŵyl Bedwen Lyfrau Crymych 2008 cyflwynwyd tlws Cyfraniad Oes i'r Diwydiant Cyhoeddi i'r darlunydd a'r awdur Elwyn Ioan. Brodor o Ben-bont Rhydybeddau yw Elwyn; ymunodd â Robat Gruffudd i fod yn aelod cyntaf o staff Y Lolfa, ac wedi deunaw mlynedd yno aeth i weithio ar ei liwt ei hun gan wneud gwaith i bob un o brif weisg Cymru o'i stiwdio yn Aberystwyth.

Yn ogystal â dylunio nifer o bosteri trawiadol yn y chwedegau a'r saithdegau, creodd gyfresi poblogaidd i blant fel Cadwgan y Llygoden o'r Lleuad, Ici'r Ddôl a Wali Wmff. Mae wedi cyfrannu yn gyson dros nifer o ddegawdau i gylchgronau fel Lol, Wcw a Chylchgronau'r Urdd ac ymddangosodd sawl cartwn o'i eiddo yn y cylchgrawn dychanol Private Eye. I gloi gŵyl lwyddiannus iawn cyflwynwyd tlws hardd i Elwyn o waith y crefftwr Des Davies gan Aneurin Jones, cadeirydd y panel dyfarnu.

# Urdd Gobaith Cymru

Swyddog Datblygu - Anwen Eleri
anweneleri@urdd.org neu
01239 652150

**Chwaraeon Cenedlaethol**
Bydd Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd yn cael ei chynnal ar gaeau Blaendolau Aberystywth ar y 10fed o Fai. Cystadlaethau pêl-rhwyd, pêl-droed a thraws gwlad. Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu.

**Eisteddfod 2010**
Os am wybod am ddigwyddiadau 2010 Ceredigion mae manylion pob digwyddiad i'w weld ar y we – ewch i'w weld! www.urdd.org/eisteddfod/digwyddiadau.php
Penderfynwyd ar restr fer o bedair safle ar gyfer Eisteddfod Ceredigion 2010. Y pedwar yn nhrefn yr wyddor yw
Aberaeron – Llanerchaeron
Aberaeron – Llanllyr
Aberteifi – safle'r Sioe
Aberystwyth – safle Capel Bangor (ardal Sioe Aberystwyth).
Edrychwn ymlaen i glywed ymhle y bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ymhellach yn y flwyddyn, tua'r hydref.

**Calendr** – Bydd Calendr Ieuenctid 2010 (18 mis) ar werth yn Eisteddfod Conwy.

**Dyddiadur**
03.06.08 Nos Fawrth Noson Sioe Ffasiwn Ji-binc a Jac Do 'Ffasiwn a Fizz' yn Llanerchaeron-Pwyllgor Apel Aberaeron. Tocynnau o Siopau Ji-binc £10
22.06.08 – Cyngerdd buddugwyr Eisteddfod Conwy a Catrin Finch yn Neuadd Pontrhydfendigiaid. 7.00 y.h.
11.07.08 –Pwyllgor apêl Faenor- Geraint Lovgreen a bwyd £20 yn Llety Parc.
13.09.08 – Taith Gerdded Pwyllgor Apêl Tirymynach

**Penwythnos Ceredigion**
Bu nifer fawr o ddisgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 yn mwynhau penwythnos yng ngwersyll Llangrannog yn ddiweddar. Buont yn cymdeithasu gyda disgyblion y Sir, mwynhau gweithgareddau'r gwersyll o ferlota, i sgio a naid bynji ar y trampolin! Joio mas draw – a diolch i'r holl staff a fynychodd y gwersyll i gynorthwyo'r disgyblion. Penwythnos arall i'w gofio.

**Eisteddfod Conwy 2008**
Pob hwyl i bawb o'r ardal a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Conwy. Mae nifer yn cynrychioli Ceredigion felly pob lwc i chi gyd. Edrychwch am stondin Eisteddfod 2010 ym mhentref Mistar Urdd lle bydd nwyddau ar gael.

Bydd gan Bwyllgor Cyhoeddusrwydd 2010 stondin yng Nghonwy yn gwerthu nwyddau ac i geisio codi ychydig ymwybyddiaeth fod y 'steddfod yn dod i Geredigion ymhen dwy flynedd. Os oes rhai ohonoch yn bwriadu mynd draw i'r Eisteddfod ac o bosib gyda ychydig o oriau rhydd yn ystod y dydd byddem yn ddiolchgar iawn os gallech roi peth o'ch amser i gynorthwyo ar y stondin e.e gwerthu raffl neu nwyddau. Cysylltwch â Nia Davies niawyn@maesglas50.freeserve.co.uk

# TASG Y TINCER


Shaun


Daniel - enillydd Mawrth

Mi fuoch chi'n brysur iawn yn lliwio'r llun o'r ffwl y mis diwethaf. Daeth sawl llun o'r Borth a Bow Street, ond dim un o Benrhyn-coch! Gobeithio caf fwy o luniau o'r Penrhyn y tro nesaf. Dyma pwy fu'n lliwio: Carys Thomas, Maes y Coed, Llanfarian; Hanna a Tomos Watkin, Blaenwaun, Y Borth; Rhiannon Tompkinson, 13 Cae'r Odyn, Bow Street; Tosa Harwood, 17 Cae'r Odyn, Bow Street; Rachel Howard, Bron Eryri, Bow Street; Shaun Wyn Jones, Bronallt, Llandre; Finlay Byrne, Ynys Afallon, Y Borth; Efa Gregory, Y Dderi, 6 Elysian Grove, Aberystwyth; Ffion Powell, 27 Maes Ceiro, Bow Street; Saran Mair Dafydd, 13 Maes y Garn, Bow Street; Eleri Griffiths; Gwyn Garreg, Y Borth; Ffion Williams, Brynrheidol, Capel Bangor; Seren Pugh, 45 Tregerddan, Bow Street; Glesni a Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau.

Ti, Shaun Jones, Llandre sy'n ennill y tro hwn . Da iawn ti wir – rwyt ti'n cystadlu ar 'Tasg y Tincer' bob tro.

A fuodd rhai ohonoch yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch fis diwethaf? Gobeithio i chi gael hwyl arni. Mi fydd sawl un ohonoch chi'n mynd i Eisteddfod yr Urdd cyn diwedd y mis hefyd rwy'n siwr – rhai ohonoch chi i gystadlu, a rhai i ymweld. Pob lwc i chi, a chofiwch fwynhau! Ydech chi'n gwybod pwy fues i'n gweld yn Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth, ddiwedd Ebrill? Neb llai na Sali Mali a Jac y Jwc! 'Falle y byddan nhw ar faes yr Eisteddfod hefyd! Roedd y lle yn orlawn o fabis a phlant bach, ac roedd hi'n digwydd bod yn benblwydd ar Jac, felly mi fuon ni gyd yn canu 'Penblwydd hapus iddo' wrth iddo dderbyn cacen! Wyddoch chi pwy ysgrifennodd storiau 'Sali Mali'? Mary Vaughan Jones oedd enw'r awdures, a daeth y llyfr 'Sali Mali' cyntaf yn 1969, bron i 40 mlynedd yn ôl. Mae hi'n edrych yn syndod o dda am ei hoedran! Efallai eich bod yn gwybod enwau rhai o gymeriadau eraill Mary Vaughan Jones, fel 'Pry Bach Tew' a 'Tomos Caradog'. 'Jaci Soch' oedd fy ffefryn i. Pa un yw eich hoff stori?

Falle eich bod wedi bod i Bentre Bach, lle mae cyfres teledu 'Sali Mali' yn cael ei ffilmio, i weld y cymeriadau? Gwelaf o wefan S4C fod y pentref y tu allan i Dregaron. Mae modd cael trip yno, ac hyd yn oed aros dros nos! Beth am edrych ar y gwefannau hyn? Mae'n nhw'n llawn o bethau diddorol:

http://www.salimali.tv/welsh/html/welcome.htm
http://www.s4c.co.uk/pentrebach/

Y mis hwn, beth am liwio'r lluniau o Sali Mali a'i ffrindiau, neu dynnwch eich lluniau eich hunain o rai o gymeriadau eraill Mary Vaughan Jones? Gallwch ddewis o'r lluniau bach neu'r rhai mawr, neu'r ddau, ond cofiwch ddefnyddio'r lliwiau cywir! Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn .Mehefin 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

EGLWYS ST. PEDR, ELERCH

GWIN, CAWS A CHÂN

(awyr agored- tywydd yn caniatáu)

CÔR ABC

NOS WENER 27 MEHEFIN 2008
7-00 PM
TOCYN: £6-00 / PLANT: £1.50

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes gan Lewis a Lorraine
Ffôn 880650

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 309 | MAI 2008